YR YMOFYNYDD.

RHIF. 41.] MAI, 1862. [AIL GYFRES.

Y PURITANIAID.

"PURITAN was a term doubtless welcomed, most luckily invented, or recalled, when it began to be applied in contempt to a class of men of whom the world was not worthy. Its peculiarity gave it almost such an advantage as that of a proper name, among the lumber of words with which they were described and reviled; while yet it meant anything, everything, which the vain world disliked in its devout and conscientious character. To the more sluggish it saved, and to the more loquacious it relieved, the labour of endlessly repeating 'demure rogues,' 'sanctimonious pretenders,' 'formal hypocrites.'"—*Forster's Essays, p.* 174.

"Y pethau hyn oll a ddigwyddasant iddynt hwy yn siamplau, ac a ysgrifenwyd yn rhybudd i ninau."—1 Cor. x. 11.

DECHREUODD Puritaniaeth yn Lloegr yn fuan wedi dwyn i mewn y Diwygiad Protestanaidd yn yr 16eg ganrif. Yr oedd llawer o'r rhai oeddynt wedi cael eu dihuno gan ysbryd y diwygiad yn teimlo, nad oedd yr hyn a sefydlwyd dan yr enw hwnw gan Harri VIII. a'i blant, ddim ond hanerog ac ammherffaith iawn. Ac yn raddol, fel ag oedd digwyddiadau a phrofiad yn agor eu llygaid, daethant i deimlo mwy etto o angen am ddiwygiad pellach oddiwrth athrawiaethau ac arferiadau llygredig yr Eglwys Babaidd. Pa mor bell yr oedd trefniadau y sefydliad eglwysig yn Lloegr ar y pryd, yn cyfiawnhau eu dymuniad neu eu cynnygiadau, bydd y darllenydd, wrth gwrs, i farnu drosto ei hun oddiar lawn ystyriaeth o'r amgylchiadau. Y mae yn eithaf tebyg mai mewn gwawd a dirmyg oherwydd eu proffes sêlog o ymestyniad at fwy o *burdeb* gydag athrawiaethau ac ymarferiadau crefyddol, y rhoddid yr enw *Puritan* i'r cyfryw, gan y sawl a deimlent yn esmwyth gyda chymmaint o ddiwygiad ag a ganiatteid iddynt dan lywodraeth y Tudoriaid. Ac yr y'm yn meddwl yr ymddengys hefyd, fod olrhain hanes egwyddorion Ymneillduaeth, trwy derfysgoedd a chyfnewidiadau agos i dri chan mlynedd, yn ein harwain yn y pendraw at y Puritaniaid yma, fel ein tadau ysprydol. Disgynyddion iddynt hwy oedd y Ddwy-fil Anghyd-ffurfwyr a dröwyd allan o'r Eglwys Wladwriaethol yn 1662.

Er egluro a chadarnhau ein pwnc, awn ymlaen i nodi rhai ffeithiau hanesyddol, a ymddangosant yn berthynol i'r matter mewn llaw.

Diddymwyd holl awdurdod y Pab yn Nghymru a Lloegr, gan Harri VIII. a'i Senedd, yn y flwyddyn 1534. Ac yn fuan wedi hyny cyhoeddwyd y brenin yn ben uchaf *(supreme head)* Eglwys Loegr ar y ddaear, âg awdur-

dod ganddo i ddiwygio pob cyfeiliornadau a cham-driniaethau mewn achosion eglwysig. Felly cafodd awdurdod y Pab ei drosglwyddo i'r brenin, heb un math o sylw ar Gymmanfa yr Offeiriaid, na rhoddi un rhybudd i'r cyfryw gydwybodau a'r nad allent gydsynio â'r fath osodiad. Dyma ddechreuad y diwygiad, os diwygiad hefyd; ond yr oedd Eglwys Loegr etto yn babaidd. A chan fod y brenin, yn awr, wedi ei osod yn lle y Pab, yr oedd yn gyson ddigon yn y Senedd i roddi i'r brenin y blaenffrwythau a'r ddegfed o'r personaethau, ag a anfonid cyn hyny i Rhufain.*

Yn 1536, ar ddeisyfiad y mwyafrif o offeiriaid mewn cymmanfa, darfu'r brenin roddi gorchymyn i gyfieithu ac argraffu yr Ysgrythyrau; yr hyn a wnaethpwyd gan Cranmer, yr hwn a ddiwygiodd gyfieithiad Tyndal, ac a'i hanfonodd i'w argraffu.

Awn bellach i nodi cynnygiadau y brenin Harri at ddwyn oddiamgylch gydymffurfiad mewn barn ac ymarferiad, yn yr eglwys oedd ef newydd sefydlu. Gwnawn ddefnydd o eiriau y Parch. D. Peter, yn ei "Hanes Crefydd yn Nghymru," a'i gyfieithiad o *Burnet's History*.

"Gan fod amrywiaeth o athrawiaethau yn cael eu pregethu, y pryd hyn, trwy yr holl wlad, y brenin, a chymmanfa yr offeiriaid, i'r dyben i ddwyn mwy o gyd-ymffurfiad barn rhwng yr offeiriaid, a gytunasant ar yr erthyglau canlynol, y rhai sydd yn dangos ansawdd y diwygiad y pryd hyny.

"1. 'Fod i'r holl bregethwyr addysgu eu pobl i gredu yr holl Fibl, a'r tair credo, sef, credo'r Apostolion, Nicea, ac Athanasius; a dehongli pob peth wrthynt.'

"2. 'Fod bedydd yn ordinhad o osodiad Crist, ac yn angenrheidiol er iachawdwriaeth; fod babanod i gael eu bedyddio er maddeuant o bechod gwreiddiol; a bod barn y Bedyddwyr a'r Morganiaid† yn gyfeiliornus.'

"3. 'Fod penyd, sef, edifeirwch, cyfaddefiad a diwygiad bywyd, yn nghyd â gweithredoedd o gariad, yn angenrheidiol er iachawdwriaeth; a bod yn rhaid ychwanegu attynt ffydd yn nhrugaredd Duw, y bydd iddo ein cyfiawnhau, nid er mwyn dim haeddiant ag sydd ynom ni, ond er mwyn haeddiant dyoddefiadau Crist yn unig. Eto fod yn angenrheidiol i gyfaddef wrth yr offeiriad, a bod ganddo awdurdod, yn ol geiriau Crist, i'n rhyddhau. Ac er fod pechadur yn cael ei gyfiawnhau trwy haeddiant Crist, fod yn rhaid hyfforddi y bobl yn yr angenrheidrwydd o weithredoedd da.'

"4. 'Fod y bara a'r gwin yn y swper sanctaidd yn wir gorph a gwaed Crist.'

"5. 'Fod cyfiawnhad yn cynnwys maddeuant pechodau, a pherffaith adnewyddiad natur, yn Nghrist.'

"6. 'Fod yr ysgrythyrau yn awdurdodi ymarferiad o ddelwau, a'i bod yn addas i'w gosod i fynu yn yr eglwysi: ond fod y bobl i gael eu haddysgu mai i Dduw, ac nid i'r ddelw, y byddent i dalu addoliad, pan y byddent yn ymgrymu ger eu bron.'

"7. 'Fod y bobl i gael eu haddysgu i beidio dysgwyl y rhoddion hyny

* *Burnet's Hist. Refor. p.* 136—159.

† Ail-fedyddwyr y gelwid hwynt y pryd hyny, oblegid eu bod yn bedyddio y rhai hyny, mewn oedran, ag oedd gwedi cael eu bedyddio o'r blaen yn eu mebyd. Nid oedd ond ychydig flynyddoedd er pan oedd y blaid hon gwedi dyfod o Germany i Loegr; ac nid ymddengys fod llawer, os oedd neb, o drigolion Brydain o'r blaid hon, y pryd hyn. Er iddynt ddyoddef llawer, cynhyddasant yn y wlad hon, gwedi i'r diwygiad gael ei sefydlu.—*Wall's Hist. Inf. Bap., Part* ii. *Chap.* 8.

oddiwrth y saint, ag sydd yn deilliaw oddiwrth Dduw yn unig; ond fod yn angenrheidiol iddynt i'w hanrhydeddu hwynt, i ddiolch i Dduw am danynt, ac i ddilyn eu siamplau da.'

"8. 'Fod yn dda i weddio ar y saint, ar iddynt hwy weddio trosom.'

"9. 'Fod defodau yn dda, a bod iddynt arwyddocad ddirgel; megis gwisgoedd yn addoliad Duw; taenellu dwfr sanctaidd, i'n gosod mewn cof o'n bedydd, ac o waed Crist; rhoddi bara sanctaidd, fel arwydd o'n hundeb â Christ; dwyn canhwyllau oddiamgylch ar Wyl Fair y canhwyllau, mewn coffadwriaeth o Grist, ein goleuni ysbrydol; rhoddi lludw ar ddydd Mercher y lludw, i'n gosod mewn cof o'n penyd a'n marwoldeb; dwyn palmwydd ar Sul y blodau, i ddangos ein dymuniad i dderbyn Crist i'n calonau, megis y derbyniwyd ef i Jerusalem; ymlusgo at y groes ar ddydd Gwener y croglith, a'i chusanu hi, mewn cof o farwolaeth Crist; yn nghyd â gosod y bedd i fynu y diwrnod hwnw, sancteiddio y bedydd-faen, a llawer o arferion ereill.'

"10. 'Fod yn dda i weddio dros y meirw; ond gan na wyddys pa le y maent, na pha faint yw gradd eu poenau, y dylid eu gadael hwynt i drugaredd Duw. Fod pob cam-driniaeth o'r athrawiaeth hon i gael ei fwrw ymaith; a'r bobl i gael eu rhyddhau oddiwrth y grediniaeth fod maddeuant y Pab, neu darllen y gwasanaeth mewn rhyw le pennodol, o flaen rhyw ddelw, yn ddigonol i waredu eneidiau o'r purdan.'*

"Er i'r erthyglau hyn gael eu cyhoeddi trwy awdurdod y brenin, yr oedd gormod o babyddiaeth ynddynt i rai, a rhy fach i eraill, o'r offeiriaid i'w llyngcu. Ac oblegid i lawer o'r offeiriaid i wrthod eu cyhoeddi hwynt i'r bobl, y brenin, fel pen yr eglwys, heb gydsyniad y senedd, a gyhoeddodd y gorchymynion canlynol, i'r dyben i ddwyn yr holl offeiriaid, pabaidd a phrotestanaidd, mewn ufudd-dod i'w lywodraeth.

"1. 'Fod yr offeiriaid i gyhoeddi ddwy waith bob tri mis, nad oedd un sylfaen ysgrythyrol i draws-arglwyddiaeth y Pab; ond fod uchafiaeth y brenin yn unol â gair Duw.'

"2. 'Fod yr offeiriaid i gyhoeddi yr erthyglau ffydd, a anfonasid allan trwy orchymmyn y brenin, yn nghyd â'r gyhoeddiad yn nghylch dilëad y gwyliau a gedwid yn amser y cynhauaf.'

"3. 'Fod iddynt gynghori y bobl i beidio a gwneuthur pererindodau i saint, ac i'w hannog i aros gartref, gofalu am eu teuluoedd, a chadw gorchymmynion Duw.'

"4. 'Fod iddynt annog plant i ddysgu gweddi yr Arglwydd, y gredo, a'r deg gorchymmyn, yn y iaith Saesneg.'

"5. 'Fod iddynt ofalu fod yr ordinhadau yn cael eu gweini yn barchus, yn eu hamrywiol blwyfau.'

"6. 'Nad oedd dim i'r offeiriaid i fynych-gyrchu i dafarn-dai, nac eistedd yn hir mewn chwareuon, ond rhoddi eu hunain i fyfyrio yr ysgrythurau, ac i fywyd sanctaidd.'

"7. 'Fod i bob perchen personaeth, ag oedd yn derbyn ugain punt y flwyddyn oddiwrth ei bersonaeth, ond heb fyw ynthi, i roddi y ddeugeinfed ran o honi i'r tlodion.'

"8. 'Fod i bob perchen personaeth o gan punt yn y flwyddyn, i gynnal un ysgolhaig yn y brif athrofa; a chynnifer ysgolhaig am gynnifer gan punt yn y flwyddyn.'

* *Burnet's Hist. Refor. p.* 225—227.

"9. 'Fod y bummed rhan o elw y personaethau i gael ei roddi at adgyweirio y ficer-dŷ, os byddai angenrheidrwydd.'

"10. 'Fod i'r offeiriaid gadw yr holl orchymmynion hyn, neu y caent eu neillduo o'u swyddau, nes y byddent yr foddlon i'w cadw.'

"Yr oedd y gorchymmynion hyn yn annerbyniol iawn gan yr offeiriaid llygredig a phabaidd, oblegid fod y brenin yn gorchymmyn iddynt wneuthur y pethau hyny, am ba rai yr oedd y Lolardiaid yn cael eu llosgi ychydig o flynyddau cyn hyny. Ac hefyd oblegid ei fod ef yn ychwanegu at eu dyledswyddau, ac ar yr un amser yn eu hanrheithio o'r elw ag oeddent yn gael oddiwrth ddelwau, pererindodau, ac arferion pabaidd eraill. A bu hyn yn achos i beri llawer o'r offeiriaid i annog y bobl i wrthryfela yn erbyn y llywodraeth."*

Fe wyddys mai nid o'i fodd yn gwbl yr ymgymerodd Harry VIII. â'r gorchwyl o ddiwygiad crefyddol. Ond wedi iddo ffraeo â'r Pab a'i wneuthur yn *ben* ar Eglwys Loegr, mynai ef ddangos *ei fod* yn *ben*. A gwae fyddai i'r neb a feiddient ei wrthwynebu. Syrthiodd yr hyglod Syr Thomas More, a'r Arglwydd Cromwell yn ysglyfaith i'w benderfynoldeb a'i fympwy despotaidd.

Ond cyn darfod a'r brenin Harri, fel y gallo'r darllenydd farnu yn well pa fath ddiwygiwr crefyddol ydoedd, rhoddwn yma gynnwysiad "Deddf y chwech erthygl," yr hon a wnaethpwyd ganddo yn y flwyddyn 1539.

"Y brenin," medd Mr. Peter, "yn ewyllysio yn fawr i ddwyn ei holl ddeiliaid i'r un farn mewn crefydd, a lwyddodd gyda y senedd i gytuno i'r dyben hyny, ar y chwech erthygl canlynol: 1. 'Fod y bara a'r gwin yn y swper sanctaidd, yn wir gorph a gwaed Crist.' 2. 'Fod y bara neu y gwin yn unig, yn ddigonol i'r bobl yn gyffredin; gan fod corph Crist yn cynnwys ei waed, a'i waed yn cynnwys ei gorph.'† 3. 'Nad yw yn gyfreithlon i offeiriaid i briodi.' 5. 'Fod yr offeren ddirgel i gael ei chynnal.' 6. 'Fod cyffes ddirgel i'r offeiriaid yn angenrheidiol.' Cytunwyd hefyd, y byddai i bwy bynag a ddywedai ddim yn erbyn y chwech erthygl hyn, i gael ei losgi. Arch-esgob Cranmer a wnaeth ei oreu i lwyddo gyda y brenin a'r senedd i beidio a gwneuthur y fath erthyglau; a thywysogion Germany a ysgrifenasant at y brenin, i ddymuno arno eu diddymu, ond ni fynai Harry wrando arnynt.‡

"Mewn canlyniad i'r erthyglau hyn, cafodd pum cant o bobl eu carcharu; ond arch-esgob Cranmer, ac arglwydd Cromwell, a lwyddasant i gael rhyddid iddynt. Y flwyddyn ar ol hyny, arglwydd Cromwell, yr hwn oedd gwedi cael ei wneuthur yn Iarll Essex, a'r hwn oedd yn un o golofnau y diwygiad, a gafodd, oblegid gwrthwynebiad y brenin iddo, ei osod i farwolaeth. Ac mewn dau ddiwrnod gwedi marwolaeth arglwydd Cromwell, tri phrotestant, a thri phabydd a gawsant eu gosod i farwolaeth yn Llundain, y tri cyntaf am wrthwynebu pabyddiaeth, a'r tri phabydd|| am ddywedyd nad oedd y brenin yn ben i'r eglwys. Gwedi clymu protestant a phabydd yn nghyd, a'u gosod a'r glwydau, cawsant eu llusgo yn y dull hyny i Smithfield, lle y llosgwyd y protestaniaid, ac y crogwyd y pabyddion."§

(I'w barhau.)

Burnet's Hist. Refor. p. 225—227. †"Gweler gyfrwystra yr offeiriaid pabaidd, fel y gallent gael yr holl win iddynt eu hunain," medd Mr. Peter. ‡*Burnet's Hist. Refor. p.* 256—259.—*Neal's Hist. Purit. vol. i.* ‖ "Y mae yn debygol," medd Mr. Peter, "mai Cymry oedd dau o'r pabyddion." §*Burnet's Hist. Refor. p.* 266, 284, 297.

RHYFEDDODAU YR AIPHT.

Llythyr II.

Y mae Pilar Pompey, fel ei gelwir ef yn gyffredinol, wedi ei sefydlu oddeutu 1320 o latheni oddiwrth y porth deheuol i Alexandria yn yr Aipht. Y mae wedi ei wneuthur o wenith-faen coch; ac y mae y pen yn arddull Corinth —wedi ei addurno â dail y palmwydd, ac heb ei fin-fylchu. Y mae y paladr a'r rhan uchaf o'r gosail *(base)* o un dernyn cyfanaidd, 90 o droedfeddi o hyd, a 9 o dryfesur. Y mae y gosail, yr hwn sydd ddarn petryal o farmor *(marble)* 60 o droedfeddi o amgylchedd, yn gorwedd ar ddwy o blygion o geryg wedi eu hassio yn nghyd â phlwm. Y mae yr holl golofn yn 114 o droedfeddi o uchder, wedi ei chaboli yn drwyadl ac heb fod yn drylliedig ond ychydig ar yr ochr ddwyreiniol.

Nid oes dim a ellir ymgystadlu a mawrhydi y gof-golofn hon; os edrychir arni o bellder, y mae yn ymddyrchafu uwchben y dref, ac yn gwasanaethu fel arwydd-nôd i longau, ac wrth wneuthur dynesiad agosach enyna syndod cymysgedig ag ofn. Nis gellir byth flino wrth ryfeddu at brydferthwch y pen hyd y paladr, a symlrwydd rhyfeddol y gosail, er fod y ddiweddaf wedi ei lled niweidio gan arfau yr ymdeithwyr, y rhai oeddynt yn awyddus i feddianu gweddill o'r henafiaeth hwn.

Y mae teithwyr dysgedig a thrylwyr wedi gwneuthur lluaws o ymdrechion aflwyddianus i gael allan, er anrhydedd i ba dywysog yr adeiladwyd y pilar gorwych hwn; er fod ei enw cyffredinol fel hyn, ni allasid ei gyfodi er coffadwriaeth am Pompey, gan nad yw Strabo na Didorus Siculus yn crybwyll am dano. Y mae Abuljeda, yn ei "Ddesgrifiad o'r Aipht," yn ei alw Pilar Severus; ac y mae hanesiaeth yn ein hysbysu ddarfod i'r Ymherawdwr hwn ymweled a dinas Alexandria; ddarfod iddo ganiatau Senedd i'w thrigolion, y rhai, hyd yr amser hwnw, oeddynt wedi bod yn byw o dan warogaeth Ynad Rhufeinig heb un gynghorfa genedlaethol; ac iddo ef newid amryw gyfreithiau o'u plaid. Y mae M. Savary gan hyny yn penderfynu fod y golofn hon wedi ei chyfodi gan y trigolion fel arwydd o barch i Severus. Ac mewn argraff Roegaidd, yn bresenol braidd wedi ei dileu ond yn weledig ar yr ochr orllewinol pan y mae yr haul yn tywynu arno, tybia ef fod enw Severus wedi ei gadw. Y mae yn sylwi yn mhellach mai nid hwn ydyw yr unig gof-golofn a gyfodwyd i'r Ymherawdwr hwnw gan yr Alexandriaid o ddiolchgarwch; oblegid y mae Pilar godidog yn bresenol yn nghanol adfeilion Antinöe, yr argraff ar yr hon sydd eto yn aros, a phrofa iddi gael ei chyflwyno i Alexander Severus. Pa fodd bynag am hyny, sicrhawyd yn ddiweddar fod yr argraff a nodwyd uchod ar yr hyn a gamenwir yn Bilar Pompey, wedi cael ei ddeongli, a phrofa fod y gof-golofn wedi ei chyfodi er anrhydedd i Diocletian, gan raglaw yr Aipht ar y pryd hwnw.

Careg Rosetta.—Wrth gloddio at sylfeini ryw hen amddiffynfa yn agos i Rosetta, wrth geg un o ganghenau yr afon Nilus, daethpwyd o hyd i gareg hynod ag arni darlleniad o dri math—un rhan wedi ei cherfio yn y dull arwyddluniol; rhan arall yn y dull *enchorial*, sef yr hyn a ellid ei alw yn rhedeg-law gyntefig yr Aipht; a'r drydedd ran yn y iaith Roeg, ac yn ymddangos fel cyfieithad o'r ddwy flaenorol.

Pan gymerwyd Alexandria gan y Saeson, daeth a cyfan yn eiddo iddynt

hwy, a dygwyd careg Rosetta, ym mysg pethau ereill, i Loegr yn nechreu y flwyddyn 1802, yr hon a gedwir yn bresenol yn y Neuadd Aiphtaidd yn y *British Museum* yn Llundain.

Y mae y gareg grybwylliedig yn gyfangorff durfing, o'r natur a elwir *basaltic*, o liw du, ac yn nghylch tair troedfedd o hyd, dwy a haner o led, ac un o drwch, ac wedi ei llyfnhau yn dda o un tu. Mae y darlleniad wedi ei niweidio i raddau mawr iawn mewn rhai manau, yn enwedig yn nechreu y rhan arwydd-luniol, a diwedd y rhan Roegaidd, tybir yr amseriad tua 190 C. C.

Dyfodiad y gareg uchod i Loegr a ennynodd frwdfrydedd dirfawr; a choleddwyd gobaith cryf y byddai yn foddion i alluogi dysgedigion i gael allan ystyr arwydd-luniau. Felly llawer o ysgolheigion enwog y deyrnas hon a'r Cyfandir a lafuriasant yn ddyfal gyda'r gorchwyl, ond aeth cyn belled a'r flwyddyn 1819 cyn cael y wir allwedd ddymunedig; ond y pryd hwnw fe'i cafwyd, a hyny mewn erthygl o waith Dr. Young, a gyhoeddwyd yn yr *Encyclopædia Britannica*. Y cynnwysiad sydd fath o osodedigaeth o eiddo offeiriaid yr Aipht, yn priodoli dwyfol darddiad ac anrhydedd i Ptolemy Epiphanes, &c.

Sphinx Fawr Jizeh.—Byddai ein hanes am gynnyrchion celfyddydol yr Aipht yn ddiffygiol iawn pe na chrybwyllem am y Sphinx, y gerf-ddelw fawr, yr hon sydd yn wastad wedi cael ei chyfrif fel cydymaith, ac weithiau hyd yn oed fel rhyfeddod fwy na'r Pyramidau. Yr hysbysrwydd diweddaf mewn perthynas i'r cof-arlun aruthrol hwn a gafwyd drwy lafur dyfal Mr. Caviglia, yr hwn ar ol amryw fisoedd o ymdrechiadau lluddiedig a phryderus a lwyddodd o'r diwedd i ddwyn yr holl gerf-ddelw grybwylledig i'r amlwg, gan arloesi llanerch helaeth o 100 troedfedd o'i hamgylch. A sylwa Mr. Salt, yr hwn oedd lygad-dyst o'r llafur uchod, mai nid hawdd fyddai i neb anmhrofedig o'r fath lafur ffurfio un dychymyg o'r anhawsderau oedd i dòri drwyddynt, yn y cyflawniad o'r gorchwyl, yn enwedig tra yn cloddio gwaelod y ffos ddofn; canys er pob rhagocheliad, pan ddelai yr awel leiaf o wynt neu ryw ysgydwad, byddai yr holl dywod amgylchynol mewn ysgogiad ac ochrau gogwyddedig y ffos yn llithro i lawr, haen ar ol haen nes llenwi pob gwagle.

Ac hyd yn oed pan fyddai yr ochrau yn ymddangos yn fwyaf safadwy, os ymattaliai y gweithwyr ond am awr, caent weled ar eu dychweliad fod y rhan fwyaf o'u llafur i fyned drwyddo drachefn. Yr oedd hyn yn digwydd yn benaf o'r tu deheuol i'r cloddle, lle y bu y bobl oll o dri ugain i gant o nifer yn ymboeni am saith niwrnod heb wneud nemawr gynnydd o herwydd bod y tywod yn llithro i lawr yn ddibaid.

Ond yr hyn a ddygwyd i'r golwg a wnaeth daledigaeth helaeth am y draul a'r drafferth i gyd pan ddaeth y gwrthrych rhyfeddadwy i'r amlwg—ei goesau mawrion amrosgo yn ymestyn allan hanner cant o droedfeddi o flaen ei gorff, yr hwn sydd mewn agwedd orweddol. Malurion o'i farf drwchus a gafwyd o dan ei ên; ac ar esgynlawr gyferbyn ei wyneb yr oedd pob dodrefn a berthyn i deml; megys bwrdd o wenithfaen ac allor, &c. Ac ar yr un palmant yn y canol rhwng palfau y ddelw yr oedd y llech fawr o wenithfaen a grybwyllwyd, ddim llai na phedair troedfedd ar ddeg o uchder, saith o led, a dwy o drwch.

Yr oedd gwyneb y gareg hon, pa un oedd yn edrych tua'r dwyrain, yn addurnedig â cherfiadau harddwych ar godiad *(bass relievo)* yn cynnrychioli dau Sphinx wedi eu gosod ar golofn-wadnau, ac offeiriaid yn dal offrymau

o'u blaen; ac hefyd ar yr unrhyw gareg yr oedd darlleniad hir mewn arwyddluniau o wneuthuriad rhagorol.

Tybid fod y llech wenithfaen uchod, yn nghyd â dwy lech arall o galchfaen, wedi eu haddurno yn gyffelyb, fw golygu fel rhanau o ryw fath o deml fechan, yn gymmaint a'u bod wedi eu gosod un o bob tu i'r llech wenithfaen ac ar union linell â hi. Yr oedd un o honynt wedi sefyll yn ei lle; ond y llall wedi syrthio a thori, ac y mae rhyw ddarnau o honi wedi eu rhoi i gadw yn y *British Museum*. Yr oedd gyferbyn a gwyneb yr adeilad yma gerflun o lew bychan yn ei orwedd, a'i lygaid yn cyfeirio tua'r Sphinx mawr. Ac heblaw y pethau hyn yr oedd yma amryw ddarnau o lewod ereill wedi eu bras-gerfio, ynghyd â phen blaen Sphinx arall o wneuthuriad lled weddus; a'r cwbl wedi eu lliwio yn gochion—lliw fel y tybir, a ystyrid yn yr Aipht, yr un modd ag yn yr India, yn fwyaf priodol i ddybenion cyssegredig.

O'r tu fewn i'r deml yr oedd allor o wenithfaen, ac un o'i phedwar corn yn aros yn ei le ar ei chongl: ac oddiwrth effeithiau tân oedd yn amlwg ar y gareg gellid meddwl y byddid yn arfer poethoffrymu arni. Ar ochr palfaswy y gerf-ddelw fawr yr oedd amryw hên draddodiadau wedi eu tori mewn llythyrenau Groeg, ac yn gyfeiriedig at wahanol dduwiau.

Ac ar ail fys yr un balf, mewn llythyrenau lled ddyfnion, yr oedd darllenjad prydyddol o folawd i'r Sphinx. Felly hefyd ar fysedd y balf ddeheu, yr oedd amrywiol fân gyfarchiadau i'r duwiau Harpocrates, Mars, a Hermes.

Yr ychydig hysbysiadau a roddwyd yma mewn perthynas i'r Sphinx a gasglwyd allan o'r defnyddiau a gafwyd trwy y llafur crybwylledig o eiddo Caviglia. Ond wrth adael ei sylwadau ef bydd yn syn gan y darllenydd, ond odid, glywed na bu ôl yr holl lafur hwnw i'w weled ond am ychydig o amser; ac er ys talm maith bellach y mae y gerf-ddelw cyn ddyfned yn y tywod ag erioed, fel nad oes i'r ymdeithydd dyeithrol yn yr Aipht, yn y blynyddoedd hyn, ddim mwy o honi i'w weled nag oedd pan yn gyntaf yr ymwelodd Caviglia â'r lle. Dywed y Dr. Richardson, mai cymmaint ag oedd yn weledig pan fu efe yno oedd y ddwyfron, yr ysgwyddau, a'r gwddf, y rhai ydynt ar ddull dynol, ac hefyd y corff, yr hwn sydd fel yr eiddo llew. "Y mae y gwddf," medd efe ym mhellach, "wedi malurio yn ddirfawr, fel y mae yn ymddangos megys yn rhy wan i gynnal y pen." Mae penwisg y DDELW yn debyg o ran dull i'r hen berwigau cyntefig, yn taflu allan o bob tu i'r clustiau fel gwallt Arabiaid Barbary, a'r clustiau eu hunain hefyd o faintioli anghyfartal, a'r trwyn wedi ei dòri ymaith. Y mae y gwyneb i gyd wedi ei liwio yn goch, yr hwn yw y lliw a briodolir i gyndrigolion yr Aipht ac i holl dduwiau y wlad, oddigerth Osiris. Mae nodweddau gwynebpryd y *ddelw* yn tebygu i'r eiddo cenedl y Nubiaid neu yr Aiphtiaid cyntefig, ac felly yn hollol wahanol i wynebpryd y Negroaid, a'r edrychiad sydd yn hynod o lariaidd ac addfwyn, a hyny i'r fath raddau fel y gallai addolwyr y Sphinx ymffrostio o'u duw tuhwnt i'r holl dduwiau o bren a maen a addolid gan genedloedd dalldybus y byd." Y mae yr un awdwr drachefn yn chwanegu, nad oedd efe ddim wedi deall fod un fynedfa i fyned i mewn i gorff y *ddelw* fel ag i allu gwybod a oedd yn geuol a'i peidio. Ond dywed y Dr. Pococke fod mynedfa i'w chefn ac hefyd i gopa ei phen; a thybiai efe fod yr offeiriaid drwy eu dichell yn defnyddio yr olaf i fyned i mewn i ateb cwestiynau y bobl a ddeuent i ymgynghori â'r eilun fel oracl, a'r llall ysgatfydd a weinyddai fel mynedfa i lawr i ryw ystafelloedd odditanodd.

Mewn perthynas i fesuriadau y *ddelw*, yn ol Pococke, yr oedd y pen a'r

gwddf, y cwbl oedd yn weledig uwchlaw y tywod pan fu ef yno, yn 27 troedfedd o uchder, y ddwyfron yn 33 troedfedd o led, a'r hyd i gyd yn nghylch 130 o droedfeddi.

Yn ol Pliny nid oedd yr hyd ond 113 troedfedd, eithr yr uchder yn 63. Yn ol Dr. Richardson, yr oedd ymestyniad y cefn yn nghylch 120 troedfedd, ac ymddyrchafiad y pen uwchlaw y tywod o 130 i 135, yr hyn sydd yn dyfod yn lled agos i fesuriad Coutelle. Y mae yn lled sicr fod y gwahaniaeth fesuriadau o uchder y *ddelw* yn cael ei achlysuro drwy fod y tywod yn ddyfnach ar rai amserau na'u gilydd, ac ymddengys eu bod wedi dyfnhau yn ddirfawr ar ol dyddiau Pliny.

Yr oedd y Sphinx yn gwbl gyfan yn amser Abdollatiph, a mawr y gammoliaeth a roddai efe i'r unrhyw, o ran cyfartalwch rhanau a harddwch ymddangosiad, gan ei gyfrif yn fwyaf o'r holl ryfeddodau a welsai efe yn yr Aipht.

Tystia Makrisi mai y Sheik Mahomet yn benaf a anffurfiodd y Sphinx, yr hwn, mewn ysbryd gwir Fussulmanaidd, a ystyriai ei hun dan rwymau i ddinystrio pob delwau, yn enwedig os tebygent i un math o greaduriaid byw. Gelwid ef yr "Ymprydiwr"—enw yn dynodi ei gaeth-ymlyniad wrth reolau ei grefydd, ac y mae ei ymosodiad ar y gerf-ddelw ac ar y llewod ceryg wrth byrth dinas Cairo, yn ddigon o brawf ei fod yn ddall-bleidiwr ffyrnig. Prysured yr amser bendigaid oddiamgylch pryd na byddo dall-bleidiwr ar y ddaear—pryd y byddo luddewon a Chenedloedd yn cyduno o un galon ac o un enaid, gan ddywedyd—"Yr Arglwydd ein Duw a addolwn ag Ef yn unig a wasanaethwn."

Cellan. I. Glan Teifi.

PROSELYT A'I GYFEILLES.

Cyfarfu proselyt diweddar at y ffydd Undodaidd â chyfeilles flaenorol, yr hon oedd foneddiges o dybiadau penderfynol iawn mewn Calfinistiaeth. Dechreuodd hon ei wrthresymu, yn rhanol mewn iaith o dosturi drosto, ac yn rhanol trwy gerydd am ei ymadawiad tybiedig oddiwrth y wir ffydd. Ar hyn fe'i cyfeiriodd hi mewn ymadrodd byr at ddammeg y Mab Afradlon, fel yn cynyrchu tystiolaeth ac eglurhad ar y golygiadau oedd ef newydd eu mabwysiadu.

Ffordd bynag, y borau canlynol derbyniodd lythyr dienw, ac wele yn canlyn adysgrif o hono ynghyd a'i attebiad yntef o'r cyfryw; ac y mae lle i feddwl nas bydd yn hollol ddifudd i ddarllenwyr yr Ymofynydd i glywed, iddo ef gael allan mai'r unig ffordd i ddistewi pob ymosodiad o'r fath fydd, trwy ddyfyniad cyfaddas o'r llyfr sydd yn cael ei barchu mor ddwfn a chyffredinol, ac yn cael ei gyfaddef fel awdurdod yn y cyfryw bethau.

Y Llythyr.—At Mr. A.

"Dammeg y Mab Afradlon a gafodd ei rhoddi gan ein Hiachawdwr yn nghyd ag ereill, mewn attebiad i'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, pan cyhuddent ef o fwyta gyda phublicanod a phechaduriaid. Gwnaeth hyny er gosod allan yn fywiog i'w hamgyffredion faddeugarwch Duw i bawb a edifarhânt, gan ei wylaidd geisio ef trwy ffydd, ac i dori i lawr waeledd tyb hunanol y Phariseaid, yn cyfrif eu hunain yn fwy pur na'r rhai dybient hwy mor ddirmygedig.

Mae yn amhosibl canfod pa fodd y gall y Sosiniaid ddefnyddio y ddammeg er prawf o gyweirdeb eu hesboniadau o'r Ysgrythyrau. Nid all fod ond trwy wrthnysigrwydd dyn; pan yr ymdrecha esbonio yr Ysgrythyr er atteb i'w natur ei hun, yn lle gweddio yn ostyngedig am gymmorth Glân Ysbryd Duw er ei addysgu yn y gwirionedd megis ag y mae yn yr Iesu. Nid allwn ni ond deisyfu am i'r rhai sydd yn cofleidio y fath egwyddorion chwythig i gael eu harwain trwy drugaredd Duw at burach ffydd, a gorphwys ar graig yr oesoedd.

ATTEB.—AT MISS L.

Derbyniodd Mr. A. oddiwrth gyfaill neu gyfeilles ddienw, ychydig o sylwadau duwiol ar ddammeg y Mab Afradlon, ac y mae yn cytuno yn hollol â'r rhan fwyaf o honynt. Ond pan yn cytuno â llawer o'r gosodiadau, dymuna ar yr un pryd, nodi allan i bwy bynag y perthyna y ffaith ddiamheuol, mai duwinyddiaeth y ddammeg ardderchog ydyw y dduwinyddiaeth honno mewn gwirionedd ag sydd yn cael ei dirmygu a dywedyd cymaint yn ei herbyn gan y rhai a alwant eu hunain yn Gristnogion uniawn-gred y dyddiau presenol.

Yn gyntaf, addefir gan bawb Cristnogion fod tad y Mab Afradlon yn arddangos *ein Tad mawr o'r nef:* ac wele nid ydyw hwnw ond un person, un meddwl, ac un bod. Ar y llaw arall haera y Trindodiaid fod Duw yn dri pherson! am hyny nad all fod y Tad ond un rhan o dair o'r Duwdod. Pa fodd gellir cymodi hyn, nis gwn, â geiriau Paul, yr hwn ddyweda—"Eithr i ni nid oes ond Un Duw y Tad," ac â thystiolaeth ein Hiachawdwr, "Hyn ydyw y bywyd tragwyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw?"

Yn ail, Mae derbyniad yr afradlon dychweledig gan ei dad yn cael ei ddeall fel yn darlunio neu osod allan, ar ddammeg, y *dull a'r modd yn yr hwn y mae pechaduriaid yn cael eu derbyn* gan ein Tad nefol pan fyddont yn dychwelyd ato ef; hyny yw, ar eu gwir edifeirwch. Pan canfyddodd y tad ei fab ar ei daith adref, ni wnaeth ei geryddu am ei ryfyg yn disgwyl cael maddeuant cyn yn gyntaf iddo ef gael iawn. Ac ni orchmynodd iddo aros mewn pellder cyfaddas hyd nes i'w frawd henaf farw yn ei le, er gwneud iawn am ei droseddau. Ond fel tad gwir haelionus rhedodd ymlaen i gyfarfod âg ef, ac o'i galon gariadus ei hun cyhoeddodd gyflawn ollyngdod. Nawr, dyma faddeuant yn wir—rhad, dibryn, am hyny maddeuant godidog. Ond beth a ddywed y Cristnogrwydd poblogaidd? Dywed nad all Duw, ein Tad Nefol, ddim maddeu cyn yn gyntaf iddo gael ei dalu am hyny trwy arteithiau a gwaed person diniwed, yr hyn mewn gwir nid ydyw yn faddeu o gwbl. A thyma eglurhad gwych o ddammeg y Mab Afradlon yn gystal a dammeg y ddau ddyledwr, lle dywedir i'r gofynwr faddeu yn rhad y swm fwyaf am nad oedd gan y dyledwr ddim i dalu!

Mae Cristnogrwydd yr eglwysi yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth Gristnogrwydd Crist, mewn dwy o elfenau pwysfawr. Hi geidw Dad Crist a thad dynolryw o'r tu-cefn, gan wneuthur Crist yn brif wrthrych ymddiried, ac felly yn defnyddio y ddelw i daflu dros olwg a gorchuddio yr Anfeidrol Ddechreuad, a distrywio yn gyfangwbl gymeriad grasol yr efengyl, gan wneud ein iechydwriaeth yn nwyf o farsiandiaeth, wedi ei brynu i ni am bris penodol, yn hytrach na rhad rodd ein Tad Nefol. Ond yn ngeiriau Dr. Channing, "Y lluaws o Gristnogion ni wnant feddwl, a'r rhai sydd yn meddwl ni feiddiant lefaru."—*(Cyfieithedig o'r "Unitarian Herald" gan Ap Gryffydd.)*

ANGYLION Y NEF.

TESTUN dieithr iawn, onide, ddywed rhywun. Feallai hyny. Ond etto pwy sydd a'r nad yw wedi clywed llawer o bryd i'w gilydd, a llawer iawn hefyd am yr angylion yma? Etto, rhaid addef y gellid gofyn: Pwy o honom sydd yn gwybod dim, neu ond y peth nesaf i ddim am danynt? Ond crybwyllir am danynt yn yr Hen Destament a'r Newydd hefyd. Y mae llawer o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, ond odid, fel ninau, ag sy'n cofio yn dda am lawer gweddi daer, ar foreu Sabboth yn neillduol, yn y teulu, ac yn yr addoliad cyhoeddus, yn yr hon y cyfeirid, gyda'r difrifwch mwyaf, at yr "angylion a'r arch-angylion, cerubiaid a seraphiaid, &c., y rhai a daflent, mewn ymostyngiad, eu coronau auraidd wrth draed yr Holl-alluog Mawr." Nis gwyddom pa mor bell y mae yr arferiad hyn yn aros yn yr eglwysi Presbyteraidd. Ond mor bell ag yr ydym yn cofio am ddychymygion ac amgyffredion mebyd, ac am flynyddau wedi'n, rhaid addef, nas gwyddem ni am un gwahaniaeth rhwng Cerub a Seraph, nag ychwaith rhwng angel ac arch-angel yn mhellach na bod yr olaf o uwch gradd neu swydd. Dyna, yn ddigon tebyg, fel y mae yn bod gyda'r rhan fwyaf o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD.

Rhai misoedd yn ôl dygwyd gofyniad ymlaen gan ohebydd o Aberdâr, gan ddeisyf cael goleu ar y pwnc; ac yn enwedig ar yr hyn a ddywed ysgrifenwyr y Testament Newydd ynghylch y berthynas a ddygai yr "angylion" yma a gweinidogaeth bersonol ein Harglwydd Iesu Grist, a gweinyddiad yr oruchwyliaeth efengylaidd, yn y byd hwn a'r byd a ddaw. Tebygem fod y gofyniad mewn effaith, er nad mewn geiriau, yn cyfeirio at gymmaint â hyny. Darfu y Parch. O. Evans, yn rhifyn Rhagfyr os y'm yn cofio yn iawn, wneud sylwadau da ac i'r pwrpas yn nghylch angylion; ond yr oedd y sylwadau a wnaeth, wrth gwrs, yn neillduol gyfyngedig i'r matter oedd mewn llaw ar y pryd. Barnwn y byddai ychydig ragor yn dderbyniol; ac nis gwyddom am ddim yn well na sylwadau Mr. Belsham ar y pwnc, yn yr "Ymofyniad Tawel," (*Calm Enquiry*), cyfieithedig gan y Parch. J. James, Gellionnen. Y mae y llyfr hwnw, yn awr, i'w gael am bris isel iawn, dim ond 2s. 6c.; ond yn ddiau, dygir y sylwadau a roddir yn yr YMOFYNYDD, ger bron cannoedd a'r nad ydynt yn feddiannol ar y llyfr gwerthfawr.

"Er deall y cwestiwn hyn yn well, angenrhaid yw dwyn i mewn rai sylwadau blaenorol.

I. Prif ystyr a gair *angel* (ANGELOS) yw 'cenad:' ac yn yr ystyr hyn fe gyferfyddir âg ef yn fynych yn ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd. 1 Sam. xix. 14, "Anfonodd Saul gennadon (Gr. ANGELOWS, angylion) i ddala Dafydd." Luc ix. 52, "Ac efe a ddanfonodd gennadau (angylion) o flaen ei wyneb." Pen. vii. 24, "Ac wedi i genhadau (angylion) Ioan fyned ymaith."

II. Y mae'r gair *angel*, yn fynych yn yr Hen Destament, ac weithiau yn y Newydd, yn gosod allan unrhyw offeryn trwy yr hwn y mae Duw yn gwneud ei ewyllys yn adnabyddus, neu yn cyflawni ei fwriadau. Fel hyn y gelwir colofn o gwmwl ac o dân yn 'angel Duw,' Exod. xiv. 19. Pläau yr Aipht a elwir yn '*angylion drwg*,' Ps. lxxviii. 49.—A chlefyd Herod a elwir yn 'angel yr Arglwydd,' Act. xii. 23.

III. Fe arferir y gair weithiau i arwyddo prophwyd neu gennad Duw.—

Matt. xi. 10, "Canys hwn ydyw efe am yr hwn yr ysgrifenwyd, Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad *(angel)* o flaen dy wyneb."

IV. Arwydda'r gair *angel* weithiau drefn neu radd o fodau gwirioneddol neu ddychymygol, uwch na dynolryw: y cyfryw ag oedd yr Iuddewon yn nechreuad yr oes Grist'nogol yn gredu oedd offerynau y rhagluniaeth Ddwyfol yngweinyddiad y byd. Marc xiii. 32, "Eithr am y dydd hwnw a'r awr ni wŷr neb, na'r angylion sydd yn y nef."

Am y tybiedig fodau deallus nefolaidd hyn, gellir sylwi,

1. Ei fod yn amheus iawn p'un a ydyw'r gair *angel* fyth yn arwyddo bod ysprydol yn aros yn barhaus mewn bod, mewn un llyfr o'r Hen Destament, yr hwn a ysgrifennasid yn flaenorol i gaethiwed Babilon.

Ni ellir profi fod yr ymddangosiadau mewn dull dynol i Abraham, Gen. xviii.; i Lot, pen. xix.; i Joshua, pen. v. 13, ac eraill, yn ddim rhagor nac ymddangosiadau dros amser, arwydd-nodau gweledig o bresenoldeb Duw, a chyfryngau llefariadau dwyfol. Y mae'r dyb mai y cyfryw oeddent yn fwy tebygol, yn gymmaint a bod un o'r tri a ymddangosasant i Abraham yn cael yn amlwg ei alw Jehofa: Gen. xviii. 13, 22, 23. Felly yn yr un modd y mae'r un a ymddangosodd i Joshua: Joshua vi. 2.*

2. Y mae'n sicr nad oes nac enwau na threfnau o angylion, nac unrhyw wahaniaethad o honynt i dda a drwg, yn cael hyd yn nôd amneidio ato mewn un llyfr ag y gellir profi ei fod wedi ei ysgrifennu cyn y caethiwed.

3. Yn y llyfrau hynny o'r Hen Destament yr rhai y gwyddys yn sicr eu bod wedi eu hysgrifennu yn amser y caethiwed neu ar ei ol, ac hefyd yr un modd yn yr Apocrypha, fe sonir am angylion fel trefn wahanol a goruwch o fodau; hwy a ddarlunir megis o wahanol restri a threfnau; megis yn llywodraethu gwahanol wledydd; megis wedi eu rhannu yn rhai da a drwg; a pheth sydd fwyaf hynod oll, megis wedi eu gwahaniaethu trwy enwau priodol, sef, Gabriel, Michael, a'r cyffelyb.

4. Y mae'r chwedlyddiaeth ynghylch angylion yn ymddifad o bob sail yn y dadguddiadau Iuddewig a Christ'nogol. Yn flaenorol i'r caethiwed yr oedd yn anadnabyddus. Gan yr Iesu a'i Apostolion fe gyfeirir atti megis at gred boblogaidd a sefydledig yr oes; ond ni ddysgwyd erioed mo honi ganddynt hwy fel erthygl ffydd. Nid yw dadguddiad gan hynny yn attebol am fodoldeb angylion, da na drwg, mwy nag ydyw am fodoldeb rheibwragedd *(witches)*, a meirwddaroganwyr *(necromancers)*, drycholaethau, neu gythreuliaid *(demons)*, hynny yw, ysprydoedd dynol yn myned i ddynion byw ac yn eu poenydio,—y rhai hyn oll a gyfeirir attynt gan yr ysgrifenwyr sanctaidd, ac hyd yn nôd a gymmerir fel gwirioneddau. Yr Iuddewon yn debygol a fenthycciasant eu tyb-olwg am angylion oddiar philosophyddiaeth y Dwyrain. Ein Harglwydd a'i Apostolion a'i cymmerasant ac a ymresymmasant arni fel tyb boblogaidd, megis y gwnaethai yn yr achosion eraill: a hwy a adawsant gymeradwyaeth y gyfan-dyb hon, fel y gwnaethant i'r lleill, i sefyll neu syrthio wrth ei phrawf ei hun, yr hyn, mewn gwirionedd, yw dim yn y byd.

5. Pan y mae goruchafiaeth Crist ar angylion yn cael ei haeru yn yr ys-

* Y mae'n amheus mewn rhai achosion, pa un a oedd y pethau elwid angylion, ac oedd iddynt ffurf dynion, y rhai hyd yn nod a rodient ac a lefarent, &c. fel dynion, ddim rhagor nac ymddangosiadau dros amser, ac nid bodau parhaus; offerynau y Duwdod yn unig, a arferid i'r diben o wneud ei hun yn adnabyddus a dealladwy gan ei greaduriaid.—*Dr. Priestley's Hist. of Early Opinions, vol. I. p. 5.*

grifennadau sanctaidd, y mae i'w ddeall yn y naill neu'r llall o'r golygiadau canlynol.

(1.) Fod Iesu o Nazareth goruwch holl brophwydi a chennadon blaenorol Duw.

(2.) Pan ddarlunir yr Iesu tan yr enw (y character) o farnwr yn ymddangos mewn uchel-rwysg, neu wedi ei osod i eistedd ar frawdle, fe ddugir i mewn gydâ phriodoldeb mawr swyddwyr dan enw angylion, neu gennadon megis yn gweini iddo yn ei osgordd i gynnal ei urddas, ac i gyflawni ei eirchion. Pa mor bell y caiff yr olwg ddarluniadol hon ei sylweddoli, neu pa un a ydyw yr arddangosiad i'w ddeall mewn ystyr lythyrenol neu mewn un gyffelybol, y diwedd yn unig all benderfynu. Ond cyssondeb, ac, os gall dyn felly ei osod allan, dull *(costume)* y darlun, a ofynant, lle yr oedd barnwr, brawdle, cyntedd cyfiawnder, llyfrau cyfraith a barn, achwyniad, hawl-brofiad, a lluaws aneirif o edrychwyr ac o gyhuddedigion, fod yno hefyd gyfran gymmwys o swyddogion i gynnal disglair-wychder ac i gyflawni gorchymmynion y llŷs.

(3.) Yn ol philosophyddiaeth blentynaidd yr Iuddewon, y ddaear oedd canol-bwynt nifer o grwn-fydoedd cyfunganol-bwyntiog, yr uchaf o'r rhai'n oedd y nef uwchaf, trigfan ddigyfrwng Duw, ac angylion da yn eu holl drefnau a graddau: tra yr oedd angylion drwg a chythreuliaid wedi ei gyrru i lawr i'r lle isaf, a'u cyfyngu i'r awyr-gylch.—Mewn cyfeiriad at y dŷb hon, y mae'r ysgrifenwyr sanctaidd, ac yn neillduol yr apostol Paul, yn desgrifio'r Iuddewon, y rhai oeddent bobl etholedig Duw, megis yn bod yn y nef; a'r Cenhedloedd, y cenhedlaethau gwrthodedig, megis yn bod ar y ddaear.* Ond wedi i'r grefydd Grist'nogol ddiddymu'r neillduolrwydd Iuddewig, a derbyn Cenhedloedd troedig i gyfrannogiad o'r breintiau hynny ag oeddent wedi bod yn meddiant hiliogaeth Abraham yn unig, fe arwyddnodir y digwyddiad mawr hwn gan yr ysgrifenwyr sanctaidd tan y darlun o chwyldroad yn y nef. Ac fe ddarlunir Crist megis yn esgyn i'r nef, ac yn cymmeryd y blaenoriaeth ar holl restri a threfnau ei thrigolion: a phawb a gredant ynddo ef a ddarlunir megis wedi esgyn gydag ef, ac megis wedi eu gosod i eistedd yn ei ymyl. Trwy yr hwn ddarluniad chwareufaol, ni feddylir dim rhagor nag fod Iesu Grist yn uwch na'r holl brophwydi a dysgawdwyr o bob gradd dan yr hen oruchwiliaeth, ac fod pawb o bob cenedl, a gredant

* Felly y mae Mr. Locke, y mwyaf gwagelog a chall hwnw o esponwyr, yn egluro Eph. i. 10, lle y mae'r apostol yn darlunio fel diben mawr yr oruchwiliaeth Efengylaidd, crynhoi yr holl bethau ynghyd yn un yn Nghrist, pethau yn y nef a phethau ar y ddaear, h y. Iuddewon a Chenhedloedd. "Fod Paul yn arfer 'nefoedd a daear' am Iuddewon a Chenhedloedd," medd y beirniadydd rhagorol hwn, "ni thybir mor dra hynod, os ystyriwn fod Daniel yn gosod allan y genedl Iuddewig trwy'r enw 'nefoedd.' Dan. viii. 10, 'Aeth (y corn) yn fawr hefyd hyd lu y nefoedd.' Ac nid yw ef heb siampl o hono yn ein Iachawdwr ei hun, yr hwn, Luc xxi. 26, sydd yn amlwg yn meddwl wrth 'nerthoedd y nefoedd,' gwyr mawrion y genedl Iuddewig. Ac nid hwn yw'r unig le yn yr Epistol at yr Ephesiaid yr hwn a gymmer y deongliad hwn o 'nefoedd a daear.' Gwel pen. iii. 15, 'O'r hwn yr enwir yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaear.' Pwy bynnag a bwysa'r ymadroddion yn ofalus, ac a sylwa ar amcan yr apostol ynddynt, ni chaiff ei fod yn gwneuthur trais i synwyr St. Paul, os deall ef wrth 'yr holl deulu yn y nefoedd a'r ddaear,' y corph unedig o Gristnogion, wedi ei wneud i fyny o Iuddewon a Chenhedloedd." Y dyn mawr hwn a chwanega gyda'r gwylder sydd bob amser yn cydfyned â gwir-alluoedd naturiol, "Pa fodd bynnag, nid wyf yn benderfynol yn y deongliad hwn, ond yn ei gynnig fel pwnc o ymofyniad i'r rhai hynny a dybiant chwiliad diduedd i wirfeddwl yr ysgrythyr sanctaidd, yr arferiad gorau o'r holl amser sydd ganddynt.

yr efengyl, ac a broffesant ffydd yn Iesu fel y Messiah, yn cael yn awr eu derbyn i holl freintiau pobl etholedig Duw.*

1. Matt. xiii. 40, 41, 42, "Megis gan hynny y cynhullir yr efrau ac a'u llwyr losgir yn tân; felly y bydd yn niwedd y byd hwn. Mab y dyn a ddenfyn ei angylion (gennadon), a hwy a gynhullant allan o'i deyrnas ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd, ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn dân."

Darluniad chwareufäol yw hwn, heb fod i'w gymmeryd yn rhy lythyrenol; ac unig feddwl sicr yr hwn yw, y bydd y drygionus yn y farn ddiweddaf i gael eu gwahaniaethu a'u neillduo oddiwrth y cyfiawn, a'u trosglwyddo i gospedigaeth gymmwys.

2. Matthew xvi. 27, "Canys Mab y Dyn a ddaw yn ngogoniant ei Dad gydâ'i angylion."

3. Matthew xxv. 31, "A Mab y Dyn, pan ddel yn ei ogoniant, a'r angylion sanctaidd gydag ef."

4. Marc viii. 38, "—— bydd cywilydd gan Fab y Dyn yntau hefyd, pan ddel yngogoniant ei Dad gydâ'r angylion sanctaidd." Luc ix. 26, "—— pan ddelo yn ei ogoniant ei hun, a'r Tad a'r angylion sanctaidd."

5. Marc xiii. 26, 27, "Ac yna y gwelant Fab y Dyn yn dyfod yn y cymmylau gydâ gallu a gogoniant mawr. Ac yna yr enfyn efe ei angylion (gennadon), ac y cynnull ei etholedigion oddiwrth y pedwar gwynt."

6. Marc xiii. 32, "Eithr am y dydd hwnnw a'r awr ni ŵyr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad." Matt. xxiv. 36; lle y mae'r geiriau yn agos yr unrhai, ond fod y rhanyn 'na'r Mab' yn cael ei adael heibio. *(I'w barhau.)*

DETHOLION.

Mae pob golwg ar Dduw, yr hon nid yw cariad yn ganolbwynt iddi, yn niweidiol i'r enaid a'i derbynio.

Onid bradwyr i wirioneddau mawrion ydym pan y byddom yn ymgadw rhag eu mynegu, ac yn gadael i'r cyfeiliornadau cyferbyniol fyned yn ddigerydd?

Mae un frawddeg o enau un a chanddo ffydd mewn dynoliaeth, yn werth cyfrolau cyfain o bregethau cyffredin.

Cyfeiliornad mwyaf a mwyaf peryglus yr oes yw dodi tyb, damcaniaeth *(speculation)*, dadl, dodi sŵn a thwrw *ynghylch* crefydd, yn lle yr *ymarferiad* o orchymynion Crist.

Os ydym i ddyfod i afael o syniadau mwy siriol ac ëang am Gristionogaeth, rhaid i ni ddechreu trwy deimlo nad yw yr oesau a fuont wedi dyhyspyddu gwirionedd Cristionogol, ac y gallwn ni fyned ychydig yn mlaen ar ddoethineb ein tadau.

* Felly wedi i'r apostol ddarlunio Crist, wrth yr Ephesiaid, pen. i. 20, 21, megis 'wedi ei gyfodi o feirw, a'i osod i eistedd yn y nefolion leoedd goruwch pob tywysogaeth ac awdurdod," y mae ef yn myned ymlaen, pen ii. 5, 6, i osod i lawr fod y troedigion Cenhedlig eu hunain, ar ol bod o'r blaen yn 'feirw mewn camweddau a phechodau,' yn awr wedi eu cydgyfodi mewn gwirionedd gydâ Crist, a'u bod yn awr, yr amser presenol hwn, yn cyd-eistedd gydag ef yn y nefolion leoedd." Ni all y iaith hon feddwl dim ychwaneg na bod y troedigion Cenhedlig yn barod wedi cu derbyn i holl freintiau y bobl etholedig. Yr un athrawiaeth y mae ef yn osod allan dan wahanol ffurf, ad 14, "Efe yw ein tangnefedd ni, yr hwn a wnaeth y ddau yn un, ac a ddattododd ganol-fur y gwahaniaeth rhyngom ni;" h.y. y mur oedd yn gwahanu cyntedd y cenedloedd oddiwrth un y bobl sanctaidd yn y deml-wasanaeth. Y mae y pwngc o oruchafiaeth Crist ar angylion yn cael ei drin yn helaeth, a chyda barn-fedrusder mawr, gan Mr. Lindsey, yn y Sequel to his Apology, p. 457, &c. Gwel hefyd ar y pwnc hwn, Simpson's Essays, vol. i. Essay iv. lle y mae yr ysgrifenydd dysgedig a chall wedi trin yr athrawiaeth ysgrythyrol ynghylch angylion yn helaeth iawn.

Y NEWYDDION DA.

Rhif. II.

"Gochelwch gablu,
Na honi mwy o'ch min,
I'r Arglwydd, cyn ei ffurfio,
Ordeinio damnio dyn."—*Evan Thomas.*

Dealllir ond odid, oddiwrth y difyniad uchod allan o gerdd "Prydydd a Darllenydd yn Llanarth," mwy na chan mlynedd yn ol, nad ydym etto wedi darfod â'r ochr nacäol i'r pwngc. Llawer mwy cydweddol á'r teimlad, rhaid addef, fuasai gallu cyd-draw ar yr hen gainge ogoneddus, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; gorfoledded y ddaear; llawenyched ynysoedd lawer; cymmylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef; cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainge Ef." Hyfryd iawn fuasai pe ba'i pob enwad crefyddol—holl eglwysi Crêd, gyda'u hamrywiaethau oll—yn gallu cyd-uno o leiaf ar gymmaint a hyn o wirionedd *efengylaidd;* sef, *bod gan bob dyn byw, gan nad beth ei gyflwr a'i sefyllfa, wir achos i ddiolch i'w Grëwr Mawr am roddi bod a bywyd iddo.* Ond na, nid felly y mae yn bod. Mor bell yw'r crefyddwyr poblogaidd o gydnabod yr egwyddor wir efengylaidd a gyfeiriwyd atti, fel nad oes un enwad braidd yn cael eu dirmygu yn fwy na'r rhai ydynt yn dàl at yr egwyddor honno, ac yn ceisio ei hamddiffyn a'i hegluro i'r byd.

Lled debyg i hyn, ymddengys, oedd sefyllfa pethau ar ran y ddadl ag oedd yn bod ar y pwngc, yn Ncheubarth Cymru, tua chan mlynedd yn ôl. Yr oedd llafur effeithiol Jenkin Jones, wedi ei derfynu—Dafydd Llwyd, ei fab yn nghyfraith a'i ganlyniedydd yn Llwynrhydowen, yn ei lawn nerth a'i flodau—a'r Bardd o Gastell Hywel yn dechreu yn fywiog gyda'r gwaith. Ond pwy a pheth oedd *Evan Thomas,* Prydydd a Darllenydd yn Llanarth, awdwr "Maen Tramgwydd"? Dichon y gallai y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, neu y Parch. W. Thomas, Llwynrhydowen, neu y Parch. J. Jones, Aberdâr, roddi cymmaint o hanes E. Thomas ag a fyddai yn adeiladaeth, ac yn ddiddordeb i ddarllenwyr yr Ymofynydd.

Ychydig fisoedd yn ôl, darfu i ni gyhoeddi "gofyniadau" allan o'r "Maen Tramgwydd" ei hun. Ac nid y'm yn gwybod pa beth a allwn ei wneud yn well ar hyn o bryd, na gosod ger bron ein darllenwyr, y sylwadau eraill, perthynasol i'r pwngc sydd genym mewn llaw, y rhai a gyhoeddwyd (nis gwyddom gan bwy) gyda cherddi rhagorol Evan Thomas.

Y *copi* sydd o'n blaen a argraffwyd yn Nghaerfyrddin, gan J. Evans, 1818. Y teitl sydd fel y canlyn: "Y Maen Tramgwydd: neu Ddau Bennill o Ymofyniad, mewn perthynas i Faterion dadleugar mewn crefydd; sef, Etholedigaeth, Gwrthodedigaeth, ac Ewyllys Rydd, yn nghyd ag Attebiad i'r gofynion. Y Cerddi cynnwysedig ydynt: 1. Dau Bennill o Gân, mewn ffordd o gwestiwn ac ymofyniad, yn dechreu ''Scolheigion doethion Cymru.' 2. Yr Atteb gan E. Thomas. 3. Atteb i'r Gân a wnaeth Evan Dafydd, o Gwswch, o blaid yr Athrawiaeth o Etholedigaeth Ddiammodol; gan Evan Thomas."*

"* [Rhagymadrodd i'r argraffiad 1799.]—Yr hanes goreu ag allwyd gael am y cerddi canlynol, ydyw, i ryw weinidog dderbyn y gofyniadau oddiwrth un o'i wrandawwyr, a'u danfon at Evan Thomas Rhys, yr hwn a gyfeiriodd yr atteb iddynt, at y gweinidog: *Y parchus athro turion, &c.* Y gân hon a gyhoeddwyd cyn y flwyddyn 1760, ac a attebwyd yn fuan gan Evan Dafydd Jenkin o Gwswch, gwr enwog am ei ddaioni a'i ddifrifwch, eithr mwy hynod am ei zel dros *yr arfaethau,* nag am ei ddawn mewn barddoniaeth. Atteb i'w

Ond ein hamcan yn bresennol yw rhoddi y sylwadau ddarfu ein gohebydd o Lanboydy adael allan; y rhai ydynt fel y canlyn:

"Athrawiaeth amlwg yr ysgrythyrau, a'r hon a amddiffynir uchod, yw, fod Duw yn Dad llawn o gariad ac ewyllys da i holl ddynolryw. Mai 'hiliogaeth Duw ydym ni,' ac mai 'o un gwaed y gwnaeth efe bob cenedl o ddynion i breswylio ar holl wyneb y ddaear,'—'fel y ceisient yr Arglwydd,' —'Mai felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol,'—ac i fod Duw 'yr awr hon yn gorchymyn i bob dyn yn mhob man i edifarhau, o herwydd iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd trwy y gwr a ordeiniodd efe.'—Fod Duw yn Nghrist yn cynnyg iechydwriaeth rad a digonol i bawb, ac yn cyfranu i bawb ddigon o ras, digon o bob peth angenrheidiol i wneuthur derbyniad teilwng o'i dadol gynnygiad, nad yw Duw 'yn ewyllysio marwolaeth un pechadur, ond dyfod o bawb i edifeirwch a chaffael iechydwriaeth.' Ni fyddai ond gwawdiaeth i physygwr i ddweyd ei fod yn ewyllysio iachad ei holl gleifion, ac i fod ganddo ddigon o physygwriaeth anffaeledig a rhad iddynt oll, ond iddynt ddyfod i ymofyn am dani, ac ar yr un pryd yn gwybod eu bod oll yn glaf yn eu gwelyau, ac yn hollol analluog i fyned allan, ac o ganlyniad yn myned ei hun i dai rhai o honynt, a gosod ei foddion yn eu dwylaw, ac yn myned heibio i deiau y rhai eraill a gadael iddynt farw o'u clefydau. Ni fyddai y peth ddim gwell pe byddai y dynion mewn twymyn boeth wedi colli eu synwyrau, a bod y physygwr yn gosod y moddion yn ngenau rhai o honynt ac yn eu gwella—ond yn gosod y moddion ar bwys y rhai eraill, ac yn dweyd wrthynt wneuthur y defnydd y fynont o honynt, pan y gŵyr nas gallant, oblegid eu coll, wneuthur un defnydd o honynt, ond yn unig i'w sarnu, a'u bod yn sicr o feirw, oddieithr iddo osod y moddion yn eu geneuau fel ag y gwnaeth i'r lleill. Yr ydys yn gofyn yn sobr, a fyddai yn gymhwys i ddweyd fod y cyfryw un yn ddaionus i bawb, a'i drugaredd tuag at ei holl gleifion? A allai efe dyngu nad yw yn ewyllysio marwolaeth un o honynt, ond iddynt oll gael iachad? Mae'n sicr na fydd i Dduw adael dim o'i waith ef yn ol heb ei gyflawni.—'Beth oedd i'w wneuthur,' medd efe, 'yn ychwaneg i'm gwinllan nag a wnaethum ynddi.' Ni fydd neb yn uffern dan gosp oblegid fod Duw wedi gadael heb wneyd y peth oedd raid iddo wnenthur cyn y gallasent fod yn gadwedig! Ond fe fydd dynion yn cael eu cospi yn gyfiawn yn y trueni, oblegid fod Duw 'wedi eu gwahodd a hwythau wedi gwrthod,' —oblegid 'iddynt ddiffodd yr yspryd,'—oblegid iddynt 'dderbyn gras Duw yn ofer,'—oblegid iddynt 'esgeuluso iechydwriaeth gymmaint.'" I.

wrthddadleuon ef ydyw'r ail gàn ag sydd yn awr yn ymddangos gyntaf yn argraffedig. Testun y cerddi nid yw ddigrifweh na dichweithder, eithr ymofyniad pwysig, teilwng o sylw ac ystyriaeth ddifrifol pob perchen enaid. Yr athrawiaeth a gyhoeddant, ydynt newyddion da o lawenydd mawr, nid i ambell un, eithr i'r holl bobl: pwy dduwiol ni lawenha, fod Tad yr ysbrydoedd wedi *apwyntio* pob enaid ar eu creadigaeth, *nid i ddiystyrio eithr i gaffael iechydwriaeth* dragywyddol trwy Iesu Grist, a'i fod wedi darparu Iachawdwr rhad, ac yn rhoddi gràs digonol i bob dyn fod yn gadwedig. Yr athrawiaeth efengylaidd hon, sydd er mawr egoniant gras Duw, er gorfoledd i'r duwiol ag sydd yn dymuno iachawdwriaeth pob dyn, ac er annogaeth i'r penaf o beehaduriaid.—Ac nis gall fod yn niweidiol i neb.—A ydyw y rhwymau i garu Duw, ac i garu ein gilydd yn llai oblegid i fod Duw yn caru pawb? Oblegid credu fed Duw yn ewyllysio yn dda i bawb o'n cymmydogion, o'n rhieni, o'n plant, ac o'n holl berthynasau, a fydd rhyw un i'w garu ef yn llai; i fod yn fwy anniolchgar, ac yn fwy anufudd iddo? 'Barned y byd!"

TRIOEDD DOETHINEB.

SYR,—Wele "DRIOEDD" eraill, allan o *Lyric Poems* Iolo Morganwg, y rhai ydynt at eich gwasanaeth. Mae gennyf le i feddwl y byddant yn dderbyniol gan ddarllenwyr yr YMOEYNYDD. Y.

1. Tri chynnorion Doethineb; Ufuddhad i Ddeddfau Duw; Ymgais a lles Dyn; a Dioddef yn lew pob digwydd bywyd.

2. Tair Deddf gweithredoedd Dyn: a waharddo yn arall; a geiso gan arall; ag ni waeth gantho ba wêdd y bo gan arall.

3. Tri pheth o'u deall a barant heddwch: syrth Anian; hawl Cyfiawnder; a Llafar Gwirionedd.

4. Tair ffordd y sydd i chwilio calon Dyn; sef, yn y ffordd nas tybio; yn y môdd nas tybio; ag ar y pryd nas tybio.

5. Tri pheth y sydd ni châr Duw a'u caro; Gweled Ymladd; Gweled Anghynfil; a Gweled Rhodres Balchder.

6. O dri pheth y mae Doethineb: Gwirionedd; Ystyr; a Goddef.

7. Tri diben Gwybodaeth: Dyled; Budd; a Phrydferthwch.

8. Tri Dyn y dylai bawb edrych yn serchog arnynt: sef, a ddisgwyl yn serchog ar wyneb y ddaear; ar ymbwyll celfydd; ag ar blant bychain.

9. Tri Dyn ni charant eu Gwlad: a garo ei fôl; a garo gyfoeth; ag a garo esmwythder.

10. Tri pheth y sydd; a'r wraig a garo weled y cyntaf, nis anghar y ddau arall; wyneb ei hun mewn drych; cefn ei gwr o bell; a gordderchwr yn ei gwely.

11. Tri chwerthin ffol: am benn y da; am benn y drwg; ag am benn nas gŵyr beth.

12. Tri pheth sy'n llygru'r Byd: Balchder; Afraid; a Seguryd.

DAMMEG Y CEILIOG RHEDYN A'R FYRIONEN.

"MYRIONEN a fu'n diwyd tra fu'r haf i gynnal ei ossymaith y maint o bob cyfraid a ddigonai ei hun ai deulu dros y gauaf. a phan ddaeth y rhew ar oerfel o wynt a gwlaw ac eira yr oedd ef gydai wraig ai blant ai holl dylwyth yn ddigongael a llawen yn ei dy ai dyddyn. Ac ar un brig nos oer yn Rhagfyr efe a glywai alw wrth ei ddrws, Pwy ydwyd ebe'r Fyrionen? câr yt ebe'r atteb. Car ebe'r Myrionen dywed imi'th enw nid er nac ofn nac er drwg ond er gwybod pwy ydwyd. Dy frawd ffydd ydwyf y Ceiliog Rhedyn, ebe'r atteb, a dyfod attad i west yr ydwyf fal y mae defod ceraint. pa le buost drwy'r haf a'r cynhaiaf ebe'r Myrionen. na chawswn dy weled a chael gennyt gymmorth i gynnull yr yd ar gwair ar cynnyd. Llemmain a chanu fy ngoreu ar hyd y meusydd meillionog ar tes claerwyn er diddanu pob byw am clywai, ebe'r Ceiliog Rhedyn, Dos, ebe'r Myrionen, at a gawsant eu diddanu gennyd, ni chefais i fawr o hynny, nac amser ychwaith gan bres fy nghynhaiaf i wrando arnat. ynawr y mae amser canu gyda ni, dos di a gwna drosot dy hun fal y gwaethum innau. Troi ymaith yn drist a wnaeth y Ceiliog Rhedyn ac nid pell oddiwrth y drws y cafwyd ef y boreu dranoeth wedi rhynnu a newynu hyd farw. ac o hyn y dywedir am bob annarbodus, fal y ceiliog rhedyn ar y Tes, a goreu celfyddyd diwydrwydd. ac a fo gar iddo ei hun a gaiff bob un arall yn gar iddo. ac, a lafur tra phery'r haf a gan drwy gydol gauaf. A wnel ei ran a wyr ei fan."—*Iolo MSS.*

DRYCH I DDYN.

Unwaith, fel yr oedd teithiwr yn pasio llanerch goediog, digwyddodd weled gwreichionen o dân a gynneuasid gan rywrai wrth fyned heibio, a dynesodd ato. Yn ddiatreg, cyrhaeddodd y tân lwyn cyfagos, yn nghanol yr hwn yr oedd gwiber, a goddeithiodd y tân ogylch y llwyn. Y wiber a erfyniai ar y teithiwr ei chynnorthwyo i ddyfod oddiyno, ac efe a rwymodd gôd am flaen ei ffon, ac estynodd hi i'r wiber, a dygodd hi allan. Yna rhoes orchymyn iddi fyned lle y mynai, ac na niweidiai ddynion mwyach, yn gymmaint ag mai i ddyn yr oedd yn ddyledus am ei heinioes. Y wiber, pa fodd bynag, a barotöes i'w bigo; a phan ddadleuai yntau mor anghyfiawn oedd ad-dalu da â drwg. "Ni wnaf ddim mwy," meddai y wiber, "nag yr ydych chwi, ddynion, yn ei wneud yn feunyddiol; oblegid eich arfer chwi ydyw gwobrwyo cymmwynasau âg anniolchgarwch. Os gelli wadu y gwirionedd yma, gad i ni ei osod gerbron y cyntaf a gyfarwyddwn." Cydsyniodd y dyn, ac wrth fyned yn mlaen, y peth cyntaf a welsant oedd coeden, a gosododd y gofyniad ger ei bron, "Yn mha fodd y dylai cymmwynas gael ei gwobrwyo?" "Os meddyli," meddai y goeden, "yn ol arferiad dynion; drwy yr hyn sydd hollol groes. Yr wyf fi yn sefyll yn y fan hon er's can mlynedd i'w cysgodi rhag tanbeidrwydd yr haul, ac fel tâl, y maent yn tori ymaith fy nghanghenau, ac y maent ar fedr fy llifio yn ystyllod." Ar hyn, ymosododd y wiber ar y teithiwr drachefn, appelai yntau am ail brawf. Caniatawyd hyny, a chyfarfuant yn fuan â buwch. Gosodwyd yr un gofyniad o'i blaen hithau, a'i hattebiad oedd gyffelyb, sef fod pethau fel y dywedwyd yn mysg dynion. "Mi a wn hyny, ysywaeth," ebe y fuwch, "o herwydd mi a wasanaethais ddyn er's hir amser, a llaeth, ymenyn, a chaws a ddygais iddo, ac heblaw hyn, llô bob blwyddyn; ond yn awr yr wyf yn hen, a throes fi i'r borfa hon gyda'r bwriad o fy ngwerthu i gigydd, yr hwn yn fuan a rydd derfyn ar fy mywyd." Ar hyn, safai y teithiwr mewn dyryswch, a phwysai ar foneddigeiddrwydd y wiber i ganiatau i'r bwystfil cyntaf a gyfarfyddent roddi diweddglo ar y ddadl. Digwyddodd hwn fod yn llwynog. Efe, wedi clywed yr hanes, a'r holl amgylchiadau cyssylltiedig âg ef, ni fynai ei berswadio fod yn bossibl i'r wiber fyned i mewn i gôd mor gul. Ond y wiber i'w ddarbwyllo, a aeth drachefn i mewn; ac yna dywedai y llwynog wrth y teithiwr, "Wele, y mae dy elyn yn awr yn dy law," ac ar hyn, cauodd y gôd, a gwasgodd hi i farwolaeth.

Dyna y drych—edrych ynddo.—I.M.

Gohebiaethau.

YR WYL DDAUCAN-MLWYDDOL.

At Olygydd yr Ymofynydd.

Syr,—Nid wyf heb ddysgwyl clywed rhywbeth yn rhagor oddiwrthych chwi, neu un o'ch gohebwyr, ynghylch yr wŷl fawr goffadwriaethol am y "Ddwy fil" sydd a chymmaint o sôn am dani. Rhaid i mi gyfaddef fy mod yn fyr hytrach yn y grâs o amynedd. Fel y gwyddys, y mae llawer o ddwndwr yn y dyddiau hyn, yn y pwlpidau ac yn y cyhoeddiadau Cymreig ynghylch y mudiad newydd a'r mudiad mawr yma, Gobeithio eu bod yn deall beth sydd ganddynt mewn llaw; a gobeithio hefyd fod ganddynt ryw beth o uwch a gwell na cheisio ymogoneddu yn mhoblogrwydd Ymneillduaeth ynNghymru. I gael cyffesu'r gwir, pan ysgrifenais y mis diweddaf i'r Ymofynydd, yr *oeddwn* yn dysgwyl gweled gweinidogion

a chynnrychiolwyr yr hen eglwysi Presbyteraidd yn Nghymru, yn cymmeryd eu lle priodol yn y mudiad (ni ddywedaf gogoneddus;—rhy gynnar fyddai dywedyd hynny); ond yn awr, o ddarllen a gweled sut y mae pethau yn bod yr wyf i ryw raddau wedi cael fy narbwyllo. Ac hyd nes delwyf i wybod rhagor, yr wy'n teimlo mai anweddus ac anghyfiawn fyddai ynof fi, i gondemnio neu feio Undodiaid Presbyteraidd Cymru am eu bod yn cadw yn ôl (os ydynt yn cadw yn ôl), rhag cynnyg eu cydweithrediad a'u cynhorthwy i'r mudiad mawr ymneillduol yma, pan nad oes gwahoddiad na groesaw, fe allai iddynt. Nid wyf yn meddwl eu bod hwy yn gofalu rhyw lawer iawn am hynny; ond yr wyf yn camsynied yn fawr os na fyddent yn foddlon ac yn llawen (pe y caniatteid hynny) i gyd-uno â'u cyd-anghydffurfwyr mewn coffadwriaeth barchus o'r ffyddloniaid hynny a ddarfu yn 1662 a chwedi'n dystiolaethu a dioddef cymmaint o blaid hawliau argyhoeddiad a chrefydd bersonol a gofyniadau cydwybod. Ond pwyllaf: fe allai fy mod, oherwydd byrdra amynedd, yn gwneud gormod o frys. Dysgwyliaf yn bryderus pa beth gaf ei glywed a'i weled yn ystod mis neu ddau.

Nis gallaf lai na gwrandaw ar yr hyn a ddywed cymmydogion wrthyf: sef, nad yw y mudiad cyfeiriedig ddim ond un o'r awelon diwygiadol, sydd, ar ruthrau, wedi ymweled a'n gwlad; ac y bydd y terfyniad yn y pendraw yn o gyffelyb i'r cyfryw.—Nid wyf fi yn barnu felly. Mae yr Annibynwyr yn Lloegr wedi tystio eu cywirdeb trwy addaw eu cannoedd a'u miloedd tuag at achosion yr enwad, mewn coffadwriaeth am y "Ddwy fil." Ac y mae Annibynwyr Cymru dlawd, yn ôl eu gallu, yn eu hefelychu hwy. Bu cynnadledd fawr yn Nghastell Nedd y dydd cyntaf o'r flwyddyn; a chynnadledd o fwy ychydig wythnosau yn ôl yn Dinbych. Golygir dim llai na sefydlu yn Nghymru un Coleg mawr a fyddo yn deilwng o'r enwad parchus:—ffurfio trysorfa tuag at dalu dyled eu capeli; ac y mae llawer cynnulleidfa drwmllwythog, o'u calonau yn gwaeddi *amen* gyda'r mudiad a fydd i ddwyn esmwythâd o'u beichiau. A mwy na hynny, fel y mae yn ymddangos oddiwrth benderfynadau y cyfarfod mawr yn Dinbych, bydd darlithio trwy hyd a lled ein gwlad ar wir egwyddorion ymneillduaeth. Y mae digon o eisiau gwneud hynny. Ychydig iawn y mae'r crefyddwyr poblogaidd yn ei wybod am hanes ac egwyddorion yr hen Anghydffurfwyr. Gobeithio y bydd y darlithwyr yn llwyddiannus i daenu y gwir oleuni ar y pwnc; ac nad anghofir, ymhlith gwersi eraill, i osod y pwys dyledus ar yr hawl a'r ddyledswydd i bob dyn chwilio a barnu drosto ei hun yn matterion crefydd a duwioldeb. Ond dyma fi wedi bod eisoes yn rhy faith. Yr oeddwn yn bwriadu dyweud gair neu ddau am bethau eraill, nid ymhell o'r pwnge; rhaid rhoddi hynny heibio am y tro hwn.

Yr eiddoch, &c.,

OLYNYDD Y DDWY FIL.

TON CYNNULLEIDFAOL.

At Olygydd yr Ymofynydd.

MR. YMOFYNYDD,—Gan fod eich cyhoeddiad clodwiw yn myned ar draws a lled y wlad, efallai y cyferfydd ar ei daith â'r hwn neu y rhai sydd wedi achosi gwobr, yn Eisteddfod fawr Aberdâr, o ddwy bunt i'r cyfansoddwr gorau am dôn gynlleidfaol ar naw ac wyth o waith Iolo. Yr wyf wedi cael ar ddeall fod llawer o ymgeiswyr i'r gorchwyl hwnw wedi dyfod i'r maes, ac i un o Lanrhystid, Ceredigion, enill y dorch. Nawr, dyben yr ysgrif hon ydyw cael gwybod, trwy yr YMOFYNYDD, pa le mae cael yr un fuddugol. Gobeithiaf mai nid er mwyn ei thaflu i groglofft, gyda llawer o drafodaeth Eisteddfodol, y cyfansoddwyd hi. A chan fod cymaint o eisiau tónau ar y mesur hwnw ym mhlith yr Undodiaid, gobeithiaf y deuir o hyd iddi. Canys wrth ei thoncio y gwna werth ei harian, a phe buasai genym ni yn sir Aberteifi yma, ni a wnaethem iddi swnio peth neu dori ei gwddf. Taled y sawl all sylw i'r hyn a ddywedwyd.

AP GRYFFYDD.

Ystrad, Ebrill 12, 1862.

Faneision Cartrefol a Thramor.

CYLLID A THRETHI Y WLAD AM Y FLWYDDYN 1862-3.

Nos Iau, Ebrill 3, gwnaeth Mr. Gladstone ei adroddiad cyllidol blynyddol. Nid ydyw yn arddangos bron ddim lleihad—ddim yn dileu un hen dreth nac yn gosod un newydd werth son am dani. Gostyngasai ein hallforion i America o £21,667,000 yn 1860 i £9,058,000 yn 1861. Yr oedd y wlad hon hefyd wedi dioddef cryn lawer oddiwrth brinder cotwm, pris yr hwn oedd wedi dyblu yn y deuddeg mis diweddaf. Nid oedd y cynhauaf yn un da; ond er y cwbl, yr oeddid wedi derbyn £1,858,000 ar gyfer y £2,637,000 a roddasid i fyny; yr hyn oedd yn brawf eglur o fawredd "adnoddau y wlad ac o ddoethineb y deddfau a basiwyd yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf." Honai Mr. Gladstone fod y cynnydd ymddangosiadol hwn yn y cyllid i'w briodoli i'r swm mawr o dreth yr incwm a gasglwyd tua diwedd y chwarter, ac i'r arian a dderbyniwyd fel iawn gan y llywodraeth Chineaidd. Cyfrifir y draul am y flwyddyn 1862-3 yn £70,040,000, a'r cyllid yn £70,190,000; ac mae gan y Canghellydd weddill o £150,000. A'r gweddill hwn, cynnygir gostwng ac ail-drefnu y trethi ar winoedd, yn ol swm y sylwedd alcoholaidd a gynnwysant; ac hefyd, diddymir y dreth ar hopys, a gosodir treth o 3c. y baril ar gwrw yn ei lle. Gostyngir y dreth ar "gardiau chwareu," o swllt i dair ceiniog; a chodir treth o wyth y cant ar bob arian a fenthycir yn y wlad hon at wasanaeth gwledydd tramor. Rhoddir trwydded am 12s. 6c. i ddarllaw gartref i bob amaethwr sydd yn talu £150 ac uchod o ardreth yn y flwyddyn, ac i bob dyn sydd yn talu £20 o ardreth blynyddol. Caniateir trwyddedau achlysurol i dafarnwyr i werthu cwrw a gwirodydd mewn ffeiriau a chyfarfodydd cyhoeddus. Ar ol tynu allan yr holl elw a ddisgwylir oddiwrth y cyfnewidiadau y cynnygir eu gwneud, cyll y drysorfa y swm o £29,200. Ail-osodir treth yr incwm yn 9c. yn y bunt, a disgwylir y cynnyrcha ddeng miliwn o bunnau yn y flwyddyn. A gellir casglu oddiwrth eiriau Mr. Gladstone, nad oes ganddo un gobaith am ostyngiad pwysig ynddi, yn enwedig tra y pery y fyddin a'r llynges i lyngcu symiau mor aruthrol.

Er nad ydyw rhagolygon cyllidol y flwyddyn yn galonogol iawn, nid ydynt mor dywyll ag yr oeddid unwaith yn ofni y buasent. Nid ydyw ein masnach bresennol âg America mor farwaidd ag y bu ychydig amser yn ol Nid oedd ein hallforion i'r Unol Daleithiau yn Medi diweddaf yn cyrhaedd ond yn unig i £483,000; ond y maent ar ol hyny wedi cynnyddu y naill fis ar ol y llall hyd nes yr oeddynt yn Chwefror diweddaf yn cyrhaedd i £1,253,000. Ond ofna Canghellydd y Drysorfa, os na roddir terfyn buan ar y rhyfel yn America, fod y gwaethaf etto yn ol. Teflir ein llaweithfeydd i gyfyngder mawr o herwydd prinder cotwm, chwanegir yn barhaus at nifer y rhai sydd allan o waith, a thrymheir beichiau y plwyfydd i raddau dychrynllyd. Ond y mae yn hyfryd genym droi oddiwrth ragolygon pruddaidd ein masnach âg America i sylwi ar effeithiau cysurus y cyttundeb masnachol a Ffrainge. Y mae Mr. Gladstone yn cymharu y chwe mis olaf yn 1859—60, cyn i'r cyttundeb ddyfod i weithrediad, â'r chwe mis cyferbyniol yn 1861—62. Nid oedd ein hallforion i Ffrainge yn ystod y tymhor blaenaf ond yn unig £2,196,000; ond yn y tymhor olaf, yr oeddynt yn cyrhaedd i £6,091,000—yr hyn sydd yn dangos cynnydd o agos i 200 y cant. Os cymmerwn gyfanswm ein hallforion i Ffrainge, yn cynnwys cynnyrchion tramor a threfedigaethol, cawn eu bod yn y blaenaf yn cyrhaedd i £4,572,000, ac yn yr olaf i £10,312,000, yr hyn sydd yn dangos cynnydd o £5,740,000. Y cyfryw ydynt ffrwythau y cyttundeb yr haerai y *Times* ei fod yn erbyn holl fanteision pobl y wlad hon.

Wrth ddiweddu ei araeth, gwasgodd Mr. Gladstone rai gwirioneddau pwysig at ystyriaeth ddifrifol y Tŷ. Annogodd hwynt i beidio tybied ei fod yn bosibl cynnyddu y cyllid heb osod trethi newyddion. "Yr ydym wedi treulio ein hadnoddau arferol. Nid ydynt mewn bodolaeth mwyach. Ofer ydyw disgwyl y gellir lleihau beichiau y bobl heb leihau

y treuliadau. Dylid arfer cynnildeb yn holl swyddfeydd y llywodraeth." Cyfeiriodd at y ffaith fod llywodraethau y byd yn rhedeg i ddyled aruthrol gyda chyflymdra arswydus. Y mae Ffrainge, yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, wedi chwanegu £250,000,000 at ei dyled; chwanegodd Awstria £200,000,000; Rwssia, £100,000,000 at y rhyfel yn y Crimea yn unig; ac America, £200,000,000 yn ystod y flwyddyn 1861. Ac nid oes gan y gwledydd hyn ddim i'w ddangos am yr arian hyn—llogau pa rai fyddant am oesoedd yn gwasgu y bobl a threthi trymion. Costiodd y rhyfelgyrch diweddaf i China y swm o £8,600,000 i'r wlad hon; ond y mae Lloegr wedi llwyddo, nid yn unig i fyw heb fenthyca, ond i dalu pedair miliwn a hanner o'r ddyled wladol.

America.—Yr Unol Daleithiau. —*Diddymiad Caethwasanaeth yn nosparth Columbia.*—Da genym allu hysbysu fod senedd yr Unol Daleithiau wedi pasio yr ysgrif i ddiddymu caethwasiaeth yn nosbarth Columbia trwy fwyafrif o fwy na dau yn erbyn un—buddugoliaeth ardderchog i achos rhyddid. Ystyriai y caethfeistriaid fod parhad caethwasiaeth yn y diriogaeth fechan yma o'r pwys mwyaf fel sylfaen i wneud caethwasiaeth yn sefydliad cenhedlaethol. O herwydd hyn, nid ydym yn synu fod holl aelodau Taleithiau y Terfyn wedi pleidleisio yn erbyn yr ysgrif. Teimlent fod y gyfundrefn wrth ba un yr oeddynt yn glynu yn colli un o'i phrif attegion, a bod yr ysgrif yn rhwyddhau y ffordd i ryddhad y caethion yn yr holl wlad. Telir tri chant ó ddoleri i'r meistriaid am bob caethwas, a chynnorthwyir y negroaid rhyddion i ymfudo i Hati a Liberia, os dewisant.

Brwydrau mawrion yn y Mississippi. —Cymmeriad Ynys Rhif 10.—*Taith Byddin M'Clellan tua Richmond. — Ymosodiad ar Yorktown.*—Ar y 6fed o Ebrill, ymosododd y Gwrthryfelwyr, dan y cadfridogion Beauregard a Johnston, ar y Gogleddwyr yn agos i Corinth, ac ennillasant fantais ddiammheuol drwy hyny. Ond, yn ol newyddiaduron y Gogledd, ymosododd y Gogleddwyr dranoeth wedi derbyn adgyfnerthion, arnynt hwythau; ac, ar ol ymladdfa galed o godiad haul hyd 4 y prydnawn, bu raid i'r Deheuwyr gilio yn ol, yn cael eu herlid gan wyr meirch y Gogledd. Cyfrifir colled y Gogledd yn 20,000, a cholled y Deheu yn 30,000. Ond nid oes dim sicrwydd etto. Lladdwyd y cadfridog Johnston, a chlwyfwyd hefyd Beauregard — dyna golled y Deheu. Collodd y Gogledd y cadfridog Prentiss, yr hwn a gymmerwyd yn garcharor.

Gyda golwg ar y symmudiadau yn Virginia, dywedir fod y Cadfridog M'Clellan wedi cychwyn i'w daith tua Richmond, ac yr oedd ar y 5ed o'r mis hwn o flaen Yorktown gyda byddin o 100,000 i 150,000 o wyr. Dywedir fod gan y Cadfridog Macgruder 30,000 o wyr yn y lle olaf, yr hwn sydd wedi ei amddiffyn yn gadarn, ac yn cael ei amgylchynu gan gorsydd nas gall un fyddin fyned trwyddynt. Disgwylid i allu cryf y Cadfridog M'Clellan lwyddo i gymmeryd Yorktown yn fuan.

Y mae ynys Rhif 10, wedi syrthio i ddwylaw yr Undebwyr, gyda 6,000 o garcharorion, a 100 o fagnelau mawrion. Dywed y Cadfridog Holleck na chollwyd un bywyd yn mhlith yr Undebwyr; ond ofnir nad yw yr adroddiad hwn yn swyddol.

Ymddengys fod Tŷ y Cynnrychiolwyr yn benderfynol o wneud pob ymdrech i ryddhau y caethion yn Maryland, Delaware, Virginia, Kentucky, a Mississippi. Gwneir ymchwiliad hefyd i achos taleithiau caeth ereill.

Cynnydd Tlodi.—Ymddengys oddiwrth adroddiad swyddol a gyhoeddwyd dechreu'r mis diweddaf fod mwy o 103,158 o bobl dlodion yn derbyn cymmorth plwyfol ar y diwrnod olaf o'r bedwaredd wythnos yn Chwefror diweddaf nag ar y diwrnod cyferbyniol yn 1861. Y mae y cynnydd yn gyfartal â 11.81 y cant. Mae y cynnydd hwn wedi ei ddosbarthu yn gyfartal. Y cynnydd yn Nghymru yw 3.70 y cant; mewn rhanau o swydd York y mae yn 12.76 y cant; ac yn y dosbarthiadau llaw-weithfaol yn y Gogledd-Orllewin y mae mor uchel a 86.32 y cant. Y mae tlodi yn Sir Lancaster a Sir Gaer *(Chester)* bron wedi dyblu yn ystod y flwyddyn.

Gwaddoliadau Eglwys Loegr.—Nid yn unig fe ddeil ein gwaddoliadau eglwysig eu cymharu â gwaddoliadau

holl Ewrop, ond y maent yn fwy nag adnoddau y rhan fwyaf o lywodraethau Ewrop. Y maent yn fwy na holl gyllid teyrnasoedd Belgium neu Naples: y maent yn bum rhan o chwech o gyllid Yspaen neu Holland; yn gymmaint ddwy waith a chyllid Portugal; yn fwy na hanner holl draul llywodraeth Prwssia. Cyfrifa un gwr holl gyllid yr Eglwys o bob ffynnonell, oddieithr arian eisteddleoedd a chyfraniadau gwirfoddol, yn £8,550,000. Cynnrychiolai hyn ariansawdd o £256,000,000! Y mae y cyllid hwn yn gymmaint a holl gyllid eglwysig y gweddill o'r byd Cristionogol gyda'u gilydd—Protestanaidd, Pabaidd, a Dwyreiniol. Y mae Awstria, Ffraingc, Yspaen, a Rwssia, yn cynnal eu sefydliadau eglwysig am bedair miliwn o bunnau, neu canolswm o filiwn yr un yn y flwyddyn. Y mae Prwssia yn gwario hanner miliwn o bunnau yn y flwyddyn ar yr amrywiol Eglwysydd Gwladol o fewn ei thiriogaethau. Mae Sweden, Holland, Hungary, a Portugal, gyda'u gilydd yn gwneud o ddeutu miliwn yn y flwyddyn i'w Heglwysydd Gwladol, pob un ar gyfartaledd yn derbyn £250,000 yn y flwyddyn. Y mae Eglwysydd Cadeiriol Lloegr eu hunain yn mwynhau cyllid o £313,000 yn y flwyddyn, gan ranu yn mhlith eu swyddogion swm mwy o £20,000 yn y flwyddyn nag Eglwysydd Calfinaidd a Lutheraidd Hungary, Eglwysydd Pabaidd a Protestanaidd Switzerland, ac Eglwys Lutheraidd Denmarc gyda'u gilydd. Y mae y swm a wariwyd ar balasau a chwanegiadau at gyflogau yr esgobion gan ein dirprwyaeth eglwysig yn ystod yr ychydig flynyddoedd diweddaf yn gymmaint a holl waddoliad blynyddol Eglwys Wladol Sweden. Dylid cofio hefyd, tra y mae Eglwys Wladol Cyfandir Ewrop yn darparu ar gyfer addysg grefyddol eu holl boblogaeth, y rhai, gydag eithriadau bychain a dibwys, ydynt yn perthyn i'r Eglwys Wladol, nad ydyw ein sefydliad ni yn cynnwys yn ei gorlan ond lleiafrif o'r genedl. Mae holl boblogaeth Ysgotland, braidd, tair rhan o bedair o boblogaeth Iwerddon, a hanner poblogaeth Lloegr a Chymru, yn Ymneillduwyr oddiwrth yr Eglwys Sefydledig, ac yn cynnal eu gweinidogion a'u haddoliad mewn dulliau ereill.

Y Cyfandir.—Fraingc.—Y mae y frwydr rhwng y *Merrimac* a'r *Monitor* wedi galw sylw adnewyddol llywodraeth Ffraingc yn gystal a llywodraeth Lloegr, at y cwestiwn o adeiladu llongau rhyfel wedi eu gorchuddio â haiarn. Dydd Iau diweddaf, bu ymddiddan maith rhwng Gweinidog y Llynges a'r Ymherawdwr ar y pwngc. Nid yw Napoleon III am i Ffraingc fod yn ol yn ei llynges i un gallu ar y ddaear. Mae wedi gorchymyn i adroddiad gael ei wneud o sefyllfa bresennol ei holl longau rhyfel, gan enwi pob un y bydd yn werth eu gorchuddio â haiarn, ac amcangyfrif o'r draul. Tra y mae ef yn benderfynol o dalu sylw arbenig i nerth ac effeithiolrwydd ei lynges, y mae newydd wneud lleihad lled fawr yn ei fyddin, a sonir am leihad pellach.

Groeg.—Ymddengys erbyn hyn nad oes dim gwirionedd yn yr adroddiad fod y gwrthryfel yn Groeg wedi ei ddarostwng. Yn lle lleihau, y mae yn cynnyddu mewn nerth, ac wedi tori allan mewn amryw o leoedd newyddion. Y mae y cyffro mwyaf yn ffynu yn Athens, a lluaws o deuluoedd yn myned i'r Piræus i'r dyben o gymmeryd noddfa ar fyrddau y llongau, os bydd raid. Yr oedd y gwrthryfelwyr yn Nauplia yn parhau i danio yn drwm yn erbyn gwersyll milwyr y brenin. Yr oedd llongau rhyfel Lloegr a Ffraingc wedi myned i Nauplia i roddi noddfa i ffoedigion. Dywedir fod y brenin yn teimlo yn ddigalon iawn oherwydd cynnydd y gwrthryfel, a'i fod yn ofni y bydd yn rhaid i'w filwyr ymladd yn galed iawn cyn y llwyddant i orchfygu y gelynion.

LLINELLAU

A gyfansoddwyd ar farwolaeth Mary, merch T. Williams, (T. ab Gwilym.) Trecynon; yr hon a fu farw Ebrill 1, 1862, *yn* 8 *mlwydd oed. Cyflwynedig i'w rhieni.*

Ow! riaint! daeth llais i fy nghlustiau,
Gan sibrwd prudd eiriau i mi,
Fod Mary eich merch gwedi 'mado
A'r byd, gan ffarwelio a chwi!
Mae dwfn deimladau eich calon,
A'ch galar yr awrhon yn ddwys;
Trwm ofid trwy'ch monwes drywana,
'Does dafod a draetha ei bwys!

Ow! haulwen eich gwynfyd fachludodd,
A'ch lleuad ymgiliodd o'r nen;
Un seren ger muriau 'ch anedd-dŷ,
Ni welir yn crogi uwch ben;

Cymylau eich wybren sy'n duo,
Gan ddwys alarwisgo eu sedd!
Eich gwyneb sy'n gwelwi gan alaeth,
Wrth orfod rhoi'ch geneth mewn bedd!

Distawrwydd eistedda ar 'aelwyd,
Lle gynt y clubuwyd ei chân;
Adroddai Benillion* yn ffraethlym,
A champus o gwmpas y tân!
Adgofion o'r amser aeth heibio,
Sy'n rhwygo'ch teimladau yn fawr!
Eich dagrau o'ch llygaid ymsaethant,
Fel afon dylifant i'r llawr!

O! codwch eich llygaid i harddwch
Y wlad sydd uwch t'wyllwch ei bedd;
Yn hon mae cryf obaith y cwrddwch,
A'ch gilydd yn harddwych eich gwedd:
Ac haulwen eich gwynfyd gyfoda,
A'ch lleuad ymlwybra drwy'r nen;
Cymylau ga'u hymlid ar wasgar,
A'ch galar dry'n ganiad, Amen.

Trecynon. DEWI IAGO.

* Adroddodd hefyd amryw ddarnau o Farddoniaeth, a Rhyddiaeth, yn ysgol Sul Hen-dy-cwrdd, Aberdar, yn rhagorol dda, nes peri syndod i'r neb a'i clywai.

YMWELIAD Y WESTERN UNITARIAN CHRISTIAN UNION AG ABERTAWE.

Cynnaliwyd cyfarfod chwe'-misol y Gymdeithas uchod yn Nghapel yr Undodiaid yn Abertawe, dydd Mercher, Ebrill 23ain. Yr oedd cynnulleidfa barchus a lluosog wedi dyfod ynghyd, o'r dref a'r gymmydogaeth, a rhai o bell; ac yr oedd amryw weinidogion o Gymru a Lloegr hefyd yn bresennol. Dechreuwyd addoliad y borau, trwy ddarllen a gweddi, gan y Parch W. A. Jones, o Taunton; a phregethodd y Parch. R. C. Jones, o Lewin's Mead, Bristol, oddiwrth Ioan xviii. 37, 38. Wedi darfod y cwrdd, aeth nifer mawr o'r cyfeillion cynnulledig gyda'u gilydd i'r *Assembly Rooms*, lle yr oedd ymborth wedi ei barotoi; a threuliwyd rhai oriau yn fuddiol mewn ymddiddan gyfeillachol, ac areithiau bywiog i'r pwrpas, dan lywyddiad J. T. Jenkins, Ysw., Maer Abertawe.

Yn y diwedydd etto, pregethodd y Parch. O. Evans, Cefn Coedycymmer, yn Gymraeg; a'r Parch. Samuel Bache, o Birmingham, yn Saesneg.

CYFARFOD CWARTEROL UNDODIAID DEHEUBARTH.

Cynnaliwyd cyfarfod y Pasg, yn ol yr hysbysiad, yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Casnewydd, Penybont, dydd Iau, Ebrill 24ain; sef, y dydd canlynol i'r cyfarfod yn Abertawe.

Er fod amryw gyfeillion, y rhai oeddynt wedi gallu cyrhaedd Abertawe, rywfodd wedi methu dyfod ymlaen gyda'r gerbydres bore dydd Iau, mewn pryd i'r cwrdd yma, yr oedd, am 11eg o'r gloch, gynnulleidfa brydferth a lluosog, o'r dref a'r gymmydogaeth a rhai pellenigion, wedi dyfod ynghyd.

Dechreuwyd yr addoliad, trwy darllen a gweddi, gan Mr. J. Evans, Coleg Caerfyrddin; a phregethodd y Parch. W. A. Jones, o Taunton, yn Saesneg, oddiwrth Rhuf. v. 11; a'r Parch. O. Evans, Cefn, yn Gymraeg, oddiwrth Ioan xiv. 6. Bwriadir cyhoeddi y bregeth Gymraeg yn yr YMOFYNYDD—yn y rhifyn nesaf, os gellir.

Er siomedigaeth i lawer o'r gwyddfodolion, methwyd y tro hwn a chael y *conference* arferol ar ddiwedd y cwrdd; gan fod yr ail gyfarfod wedi ei gyhoeddi i ddechreu am 3 o'r gloch, yn hytrach nag yn y diwedydd, er mwyn y cyfeillion o'r Wig a'r Notais, fel y gellid diweddu'r cwrdd mewn pryd iddynt hwy ac eraill gyrhaeddyd tref cyn iddi fyned yn nos.

Dechreuwyd yr addoliad yn y prydnawn gan yr hen frawd parchedig o Gellionnen, a da iawn oedd gan lawer i glywed ei lais, a gwrandaw ar y sylwadau esboniadol dwys a wnaeth wrth ddarllen y bennod; ac yn neillduol gan y sawl nad oeddent wedi ei glywed y diwedydd o'r blaen. Cafwyd pregethau rhagorol gan y Parch. W. Thomas, Llwynrhydowen, a'r Parch. T. Thomas, Pantydefaid, yn Gymraeg, a phregeth fer yn Saesneg gan y Parch. W. A. Jones; ac felly diweddwyd y cyfarfod, a gollyngwyd y gynnulleidfa trwy ganu Salm gan gôr y Notais. Teimlir fod cydnabyddiaeth yn ddyledus i'r cyfeillion o'r Notais am eu caredigrwydd yn cymmeryd arnynt gadw trefn a llywyddiad gyda'r gwaith o ganu mawl trwy yr oll o'r cyfarfodydd, yr hyn a wnaethant gyda bywiogrwydd a chymhwysder neillduol. Cafwyd achos i fod yn ddiolchgar am gyfarfod da iawn. Dywedai llawer un wrth ymadael, mai "da oedd iddo fod yno."

Bydd y cyfarfod nesaf yn Nghaerfyrddin—cyfarfod blynyddol—yn ôl yr amser arferol, ar y dydd Iau cyntaf yn mis Gorphenaf—y parch J. James, Gellionnen fydd i bregethu. Pwnc y *conference*, "Edifeirwch efengylaidd." Cofier y bydd matterion tra ddyddorol i gael eu trafod yn y cyfarfod hwnw—dim llai na gosod bellach mewn llawn weithrediad hen Gymdeithas Llyfrau Undodiaid y Deheubarth. Ond gellir dysgwyl hyspysiad pellach ynghylch hyny oddiwrth yr Ysgrifenydd, y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, yn y rhifyn nesaf o'r YMOFYNYDD.

Barddoniaeth.

LLINELLAU.

Ysgrifenwyd y llinellau byr-fyfyr a ganlyn ar ol clywed y Parch. John Jones yn traddodi y bregeth ymadawol yn yr Hen-dŷ-cwrdd, Aberdâr, cyn ei dynu i lawr a'i ail-adeiladu o'r newydd, oddiwrth Zech. i; 5 adn.

"Ein tadau gynt, pa le maent hwy?
A'r Prophwydi"—'ydynt mwy?
Na, hwy aethant gyd i ffwrdd;
Pa rhai o'ent frŵd o hyfryd aingc,
Hoen hyfawl gu eu nefol gaingc,
Wrth gyrchu at yr orseddfaingc,
O fewn i'r Hen-dŷ-cwrdd.

O'r pleser fuasai gwel'd eu gwedd,
Yn llawn adfywiad llafar hedd,
Paa oeddynt yn cyd-gwrdd;
Dros ddal i'r lan o anian fyw,
Addoliad pur yr unig Dduw,
Er gwaetha'r byd a'i raib bob rhyw,
O fewn i'r Hen-dŷ-cwrdd.

Tebygwn clywn eu hunol lais,
Yn galw arnom—dyma'u cais;
"Nac ofawch unrhyw dwrdd:
Fe gaw'd rhyddad, rhaid llawenhau,
Oddiwrth gaethiwed erchyll iau,
Ni raid y Cristion i bruddhau,
O fewn i'r Hen-dŷ-cwrdd."

Mae'r alwad arnom ninau'n glau,
I beidio oedi amser hau,
Os mynwn hulio'n bwrdd;
Ond bod o'r galon gyda'n sêl,
Wrth waith ein Duw a doed a ddel,
A dwyn yr arch i bawb a'i gwêl,
Yn ol i'r Hen-dy-cwrdd.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

MYFYRDOD

y dydd Sul olaf yn Ysgol Hen-dŷ-cwrdd, Hirwaun, Aberdâr, cyn ei dynu i lawr i'w ail-adeiladu.

Fy hoff gyfeillion mad,
Sy'n un mewn cariad llon;
Ymunwn yn y gad,
Yr olaf ganiad hon:
Mae'r galon fach yn brudd
Uwchben henafol fwrdd,
Wrth dreulio nawn yr olaf ddydd,
Rhwng muriau'r Hen-dŷ-cwrdd.

Ow'r hyfryd oriau gynt,
Ae'nt heibio megys do',
'Mal awel denau'r gwynt
Sy'n deffro newydd go':
Dwyn maent fyfyrdod prudd,
Uwchben henafol fwrdd,
Wrth dreulio nawn yr olaf ddydd
Rhwng muriau'r Hen-dŷ-cwrdd.

Y prif athrawon syw
Wasgarwyd yma 'thraw,
Does nemawr un yn fyw
Eill heddyw siglo llaw:
Mae hyny'n dwyn myfyrdod prudd
Uwchben henafol fwrdd
Wrth dreulio nawn yr olaf ddydd
Rhwng muriau'r Hen-dy-cwrdd.

Mal sŵn yr awelon, rhyw beth sy'n cyhoeddi
Amseriad dymunol y Bardd o Glyn Cothi,
Ei dreiddlym sylwadau ar weithion Jehofa
Ddiferodd mor olau dros fwrdd yr Areithfa;
Mae hyny'n dwyn myfyrdod prudd,
Does modd i'w yru ffwrdd;
Wrth dreulio nawn yr olaf ddydd
Rhwng muriau'r Hen-dŷ-cwrdd.

Ond er fod ei agwedd yn brawf o ddad-feilion,
Mae amser yn esgor ar hyfryd newyddion;
Mae'r tlawd a'r cyfoethog yn unawl gyd-dynu
I ddarpar defnyddiau i'w ail-adeiladu,
Ag etto'r teimlad sydd yn brudd,
Does modd i'w yru ffwrdd,
Wrth dreulio nawn yr olaf ddydd
Rhwng muriau'r Hen-dŷ-cwrdd.

Gwell peidio hir dristâu,
Dyw'r cyfnod ddim ym mhell,
Cawn eto lawenhau,
A phrofi amser gwell;
A rhyw orfoledd wel'd y dydd
A hiraeth gilia ffwrdd,
Ond cofiwn nawn yr olaf ddydd
Rhwng muriau'r Hen-dŷ-cwrdd.

Trecynon. CARW COCH.

PENILLION AR Y DDIAREB,

"Nid da gormod o ddim."

O gam-dreulio cymedroliaeth,
Tyf y ffrwyth yn llygredd waeth-waeth
Gwell yw cadw o fewn terfynau,
Os y gellir ffrwyno'r chwantau.

Dysgu rhodio mewn doethineb,
Cadw ar gôf beth yw'r *Ddiareb*,
Nid da gormod o ddim, cofier,
Os na wnawn ni ei gam-arfer.

Rhai a dreuliant oriau segur,
Byw a bod heb ddim yw wneuthur;
Achos gormod amser ganddynt
Hwy segurant, hawdd bod hebddynt,

Blys rhai eraill yw yr arian,
Am grafangu'r byd yn gyfan;
Llawer aeth i fyw'n afradlon
Wrth ymdyru fwy na'i ddigon.

Wrth hir ddilyn gwag bleserau
I ormodedd gyda'i chwantau;
Cyflog dlawd fydd yn y diwedd,
Os ymroer i annigonedd.

Addurn penaf i ddynoliaeth,
Ydyw cymedroldeb perffaith;
Gwyliwn bawb wneud dim 'n ormodol,
Goreu beth a gwir obeithiol.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

LLINELLAU

o gyd-ymdeimlad â Mrs. Thomas, Doghill, Saint Nicholas, presenol Canton, yr hon sydd wedi ei hamddifadu o'i golygon.

TÔN,—"*Highland Mary.*"

MOR hyfryd yw gwel'd teyrn y dydd
'Nolwyno o'i stafelloedd;
A'r bryniau'n gostwng ger ei fron,
A'i yrfa'n eitha'r nefoedd:
A'r dyffryn gyfyd ar ei draed
I weled ei wynebpryd;
Mae bywyd anian yn ei wên,
I'r ddaear hên mae'n wynfyd.

Y llygaid gynt a welodd wên
Yr haulwen yn addurno
Dyffryndir ffrwythlawn Doghill fad,
Ni welant mwy o hono.
Na, na, dán len mae'r llygaid llon
Oedd orlawn o wir dlysni,
Eu treiddgar drem wnai dywys byd
I'w mynwes glyd i'w lloni.

Yn ofer chwardda'r rhosyn mad
Er denu ei golygon;
Y swynol fach ni rydd leshad—
Na mwynder mwy i'w chalon:
Y mae prydferthwch bryn a dôl
Oll wedi eu henyddo:
Mae canol dydd fel eanol nos:
Gwnawn wrth y dall dosturio.

Mewn newydd glog mae'r goedwig werdd,
A'r dolydd oll ddilledir:
Ein Naf rydd iddynt newydd wisg,
Ond gan y *dall* nis gwelir:
O gylch ei fam yr oen bach rêd
Yn llawen ar y doldir;
I'r *dall* adgofion o hyn gynt,
Ond ganddo mwy nis gwelir.

Gofidus i'm cyfeilles fwyn
Yw colli swynion anian;
Ond para'n berffaith y mae'r clyw,
Nid difudd ydyw'r cyfan.
Fe ŷf y glust beroriaeth nef,
Rhydd dangnef i'r teimladau:
Meddianol fyddoch ar ffydd gref,
Rhydd hon wir wledd i chwithau.

Y penaf o'r synwyrau oll,—
Y deall a'r teimladau—
Y rhai'n feddianwch yn ddigoll
Boed aml eich mwyniadau!
Bu diwedd oes prif feirdd y byd,
Yr un â chwi 'u sefyllfa;
Ein Milton fawr, a Thad y Gân,
Hên Homer fardd Caerdroia.

G. BRYCHEINIOG.

AR FABAN.

Tua'r beddrod tywyll tawel
Brysio wnes o'r bru yn isel:
Prin dechreuodd gwawr fy mywyd,
Cyn i'r amser ddod i'm symmud:
Mi ni phrofais un pleserau,
Mi ni welais un mwyniantau;
Ces fy ngeni, wael bererin,
Ond i wylo a marw wedi'n.
Dedwydd, bendigedig faban,
Huna'n dawel yn y graean.
Fe'th achubwyd di yn forau
Rhag gofalon byd a'i bethau:
Nid oes mwyniant werth dy aros,
Er yn ddengar yn ymddangos.
Byr, ansicr a phoenus ydynt,
Gwnes yn dda ro'i ffarwel iddynt.
Nid yw'n rhodres oll ond gwagedd,
Na'n llawenydd gwag ond llygredd;
Diniweidrwydd un fel hwnna
Ydyw'r unig beth i bara.

Cyf. T.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.